GŴYL DDRAMA

Tafod Elai

yn NEUADD DOWLAIS
Llanilltud Faerdref

22ain Tachwedd

NOS IAU £1.50 (Plant 50c)

1989

GŴYL DDRAMA
TAFOD ELÁI

5

Neuadd Dowlais
Pentre'r Eglwys
Nos Wener 22ain Tachwedd
Beirniad - Emyr Edwards

Pris - £2 y noson (£1 plant, henoed,di-waith)
neu £5 am yr wythnos

1991

GWYL DDRAMA
TAFOD ELÁI

10 fed

1995

21, 22, 23, 24 Tachwedd

TOCYN WYTHNOS

Neuadd Dowlais
Llanilltud Faerdre

£6

GŴYL DDRAMA
TAFOD ELÁI

7

NEUADD DOWLAIS
Llanilltud Faerdre
7.00 o'r gloch

TOCYN WYTHNOS

24- 27 TACHWEDD 1992

£3.50



GŴYL DDRAMA

TAFOD ELAI

Beirniad: Mr Dyfan Roberts.

Nos Fercher i Nos Wener
19 - 21 Tachwedd 1986

Nos Fercher: Cystadleuaeth
Nos Iau: Cystadleuaeth
Nos Wener: Drama Wadd a'r Feirniadaeth.

1 noson £1-00
2 noson £1.50
3 noson £2.00

Hanner pris i'r henoed, plant ysgol a'r diwaith.

Neuadd Dowlais

LLANILLTUD FAERDRE

7 o'r gloch bob nos

Darperir lluniaeth ysgafn

20c

NOS FERCHER 19eg TACHWEDD

7 o'r gloch: Cwmni Ysgol Gynradd
Y Creigiau
yn cyflwyno
"PRIODAS NANTGWRTHEYRN"

Cast: Dosbarth 3, Ysgol Gynradd Y Creigiau.

Gwahanwyd hwy ddydd eu priodas.....
Fe'u hunwyd ddydd eu hangladd.

* * * *

EGWYL

TE A CHOFFI AR GAEL

8 o'r gloch: Cwmni'r Bont, Pontypridd
yn cyflwyno
"Y DIALYDD"

Melodrama glasurol, Gymraeg yw "Y Dialydd" gan Brinley Jones (awdur "Marchogion y Nos", "Y Boncyff" ayb). Cynnyrch oes aur y theatr amatur Gymraeg, sef y blynyddoedd rhwng y ddau Ryfel Byd. Drama festri, y byddai ei chymeriadau'n dra chartrefol mewn festri: sant o Weinidog, a'i santes o wraig; blaenor cas, ariangar wedi mynd "at y Saeson" ac yn bygwth troi'r hen bâr duwiol o'u cartref; cymdoges ffraeth ei thafod; ysgrifennydd a thrysorydd y capel, a'r Dieithryn sy'n dychwelyd o'r America i fod yn "offeryn yn llaw Duw" trwy roi diweddglo hapus i'r sioe.

Parch. William Price.....Hefin Griffiths
Ann, ei wraig.....Menna Lewis
Marged Williams.....Menna Thomas
Samuel Pwel.....Gerallt Pennant
Richard Tomos.....Dafydd Idris
Henry Davis.....Owain Llewelyn
Daniel Parry.....Dai Francis

* * * *

EGWYL

TE A CHOFFI AR GAEL

NOS FERCHER 19eg TACHWEDD

9 o'r gloch: Cwmni Clwb y Dwrlyn
yn cyflwyno
"Y FAINC"
gan W.S. Jones.

Mrs. Roberts.....Nerys Snowball
Mrs. Jones.....Ann Dwynwen Davies
Merch Ifanc.....Lorraine Beard
Hogyn Papur Newydd.....Daniel Rochford
Plismon.....Rhodri Gwyn Jones
Tramp.....Garfield Lloyd Lewis
Dyn.....Ifan Wyn Williams

* * * *

Goruchwyliwr Llwyfan.....Eiry Rochford
Gwisgoedd.....Nia Williams
Offer a Chelfi.....Carol Williams
Goleuo.....Roy Davies
Coluro/Set.....Nia Jarman

* * * *

Pwy yw hwn sy'n meiddio eistedd ar fainc y pentref, lle nad oes byth neb ond y plismon yn eistedd? Mae pob trosedd i'w gweld o'r fan honno! Ond pwy roddodd y cwt ar dân? Y dieithryn? Y tramp? Ŵyr y ddwy barablus yn glanhau'u ffenestri ddim chwaith er cymaint 'u gwybodaeth am bawb. Yn y diwedd pwy sy'n gwybod dim am ddim, hyd yn oed dim mainc?! Efallai mai dyma neges y ddrama Ionescaidd hon: ond efallai nad oes neges, dim ond gofyn i chi chwerthin: pwy a ŵyr? A beth a ŵyr pwy?

* * * *

NOS IAU, 20fed TACHWEDD

7 o'r gloch: Cwmni Ysgol Gyfun
Cwm Rhymni
"TAMAID I AROS PRYD"
gan Alan Ayckbourne.
Cyfieithiad
Garry Nicholas.

Donald Prys.....Morgan Hopkin
Emma Prys.....Rhian Davies
Polly.....Tracey Jones
Gweinydd.....Lisa Close
Martin.....Johnathan James

* * * *

Disgyblion dosbarthiadau 5 a 6 sy'n perfformio'r ddrama hon. Dyma'r flwyddyn gyntaf iddynt gymryd rhan mewn cystadleuaeth dramau byrion a buont hefyd yn cymryd rhan yng Ngŵyl Ddrama'r Urdd ym Mrynaman. Drama allan o ddramau byrion "Confusions" yw "Tamaid i Aros Pryd" sydd wedi ei lleoli mewn tŷ bwyta. Maen'n dangos y camddealltwriaeth sy'n medru dod i'r amlwg ym mywydau pobl ar adegau.

EGWYL

TE A CHOFFI AR GAEL

8 o'r gloch: Cwmni Un-nos
yn cyflwyno
'Y PYSGODYN"
Cyfieithiad
Alwena Williams o
"THE FISH"
gan Yves Cabrol.

Louis Cabrol.....Y Mab.....Phillip Tarling
Yvette Plum.....Chwaer.....Manon Morris
Celestine Plum....Chwaer.....Carys Swain
Pierre Plum.....Tad.....Geraint Rees
Yves Cabriol.....Tad.....John Hardy
Hortense Plum.....Mam.....Mererid Morris
Marianne Cabrol...Mam.....Llinos Swain
Georges Dardin.....Allan Pickard

Y cyfeilio yng ngofal Enid Hughes

NOS IAU, 20fed TACHWEDD

Golygfa ar lan afon yn Ffrainc ar noson o haf.

"Mae 'na ddigon o bysgod yn y môr.." fel y dywedodd rhywun rhywdro...Ond, a yw'r chwiorydd ifanc yn credu hyn wrth iddynt chwilio am gymar oes?...
..A yw'r tadau hwythau'n credu hyn wrth gynnal ymryson pysgota?...
..A beth am y mamau? Ydi'r cyfan a ddigwydd ar lan yr afon yn ormod iddynt?...
..A phwy yn wir yw Georges?..
Cewch yr atebion i'r holl gwestiynau hyn wrth wylio'r cwmni un-nos hwn yn datgelu'r cyfan i chi drwy gyfrwng y ffars Ffrengig hon.

EGWYL

TE A CHOFFI AR GAEL

9 o'r gloch: Cwmni Clwb Ifor Bach
yn cyflwyno
"CAFFI SAM"
gan Rhys Llwyd.

Mae 'na flas gwell ar de os oes 'na hosan wedi bod yn y tebot - mae pawb yn gwybod hynny a theulu felly oedd yn mynychu Caffi Sam. Ond mae rhai pobl yn fwy particiwlar, pobl fel arolygyddion iechyd, er enghraifft.

Cyfarwyddwr: Ynyr Williams

Sam.....David Boobier
Harri.....Anthony Evans
Dai.....Iwan Llwyd
Mabel.....Angharad Dafis
Bob.....Emyr Lewis
Dyn.....Alan Jobbins
Glenys.....Nerys Jones

* * * *

SOWAMDANI

comedi cadw'n heini gyda
Clive Roberts, Dyfed Thomas
a Robin Griffith

Estynnwn wahoddiad i chi dreulio sesiwn yn

YR IECHYD DA HEALTH FARM

• perchnogion: Doris ac Evelyn Haydon-Williams •

ar Nos Sadwrn
Tachwedd 8 15 22 neu 29
Rhagfyr 6 neu 13 1986
yn y Stiwdio Iechyd,
HTV Cymru,
Croes Cwrlwys, Caerdydd

Tocynnau ar gael drwy gysylltu â

Tocynnau
SOWAMDANI
Swyddfa Cysylltiadau Cyhoeddus
HTV Cymru
Caerdydd CF5 6XJ (0222) 590537

HTV CYMRU

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU

Ar Agor
10.00 - 6.00
7.00 Mercher
5.00 Sadwrn

Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

NOS WENER, 21ain TACHWEDD

7 o'r gloch: BEIRNIADAETH
DYFAN ROBERTS
a chyflwyno
TLWS Y TAFOD

EGWYL FER

7.45: Cwmni Gwadd CARREG GALCH,
RHYDAMAN
yn perfformio
Drama Fuddugol
Eisteddfod Genedlaethol
Pwllheli, 1956
CORN BECA
gan
Gwyn D. Evans

CYMERIADAU

MARTHA HUWS . . . . . JANET BOWEN
CATRINA . . . . . LYNDA GERRARD
SIACI . . . . . RANDAL ISAACS
DAFYDD BIFAN . . . . . ROGER THOMAS
GRUFFYDD HUWS . . . . . LYNNE JONES
EMILY PRICE . . . . . RUTH BEVAN
OWEN BIFAN . . . . . ROBERT OWEN
CAPTEN MORUS . . . . . KEN DAVIES
SGWEIER PRICE . . . . . CERI MORGAN

RHEOLWR Y LLWYFAN
JOHN HIGGON

CADEIRYDD Y CWMNI
MR. JOHN ROBERTS

CYNHYRCHYDD
HARRI OWEN

CWMNI THEATR GYMRAEG CLWB Y BONT

Teimlai Cwmni Theatr Gymraeg Clwb y Bont yn bur anniddig ynglŷn ag un tueddiad a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr Ŵyl y llynedd, sef fod cyfran helaeth o'r gynulleidfa, bob nos, wedi dod i fwynhau ei hun, a bod sawl cwmni wedi bod yn fwy na pharod i ddiwallu'r ysfa ddiraddiol honno. (Tristwch yw gorfod cyfaddef inni glywed rhai philistiaid yn chwerthin ac yn dangos arwyddion amlwg eraill o fwynhad hyd yn oed yn ystod perfformiad y Cwmni hwn o'r clasur dyrchafol hwnnw, "Y Dialydd".)

Yr ydym yn argyhoeddiedig, fodd bynnag y bydd cynhyrchiad Cwmni Theatr Clwb y Bont eleni yn sobreiddio pawb a'i gwêl, gydol yr Ŵyl, waeth pa mor wamal a disylwedd y bo ymdrechion cwmniau llai diwylliedig. Comisiynwyd yr ysgolhaig ifanc disglair, y Dr. Menna Lewis, i addasu campwaith clasurol y dramodydd Rhufeinig, Titus Maccius Plautus, "Aulularia". Gwnaeth y Dr. Lewis hynny'n hynod ewyllysgar, gan roi i'w chymreigiad y teitl "Cybydd Tavelisium". (Fe gofia'r cyfarwydd mai ar yr un ddrama y seiliodd y Ffrancwr, Mbliere, ei gomedi, "L'Avare".)

Digwydd y chwarae yn nhreflan Rufeinig Tavelisium, yn Neheudir Cymru, yn y flwyddyn 305 O.C. Trefnodd LAR FAMILIARIS, y Duw sy'n gofalu am gartref y cybydd, PURSTINIUS fod hwnnw'n dod o hyd i gawg â'i lond o aur....a dyna ddechrau gofidiau PURSTINIUS.....

Y CYMERIADAU

LAR FAMILIARIS, Duw teuluol a'r Cyfarwydd	DAFYDD IDRIS
PURSTINIUS, hen gybydd	HEFIN GRIFFITHS
SLEBOGA, hen forwyn	ANNA JONES
VASECTOMUS, hen lanc	GERALLT PENNANT
NYMPHIA, merch PURSTINUS	SOFFA LOREN
NUMONIA, chwaer VVASECTOMUS	MENNA THOMAS
IUPIEIDES, gŵr ifanc cefnog	DAFYDD WILLIAMS
DIOGIO, caethwas VASECTOMUS	MICHAEL STRAEN
SALMONELUS, cogydd	DAVID FRANCIS
ANTHRAX, cogydd arall	OWAIN LLYWELYN
YTIESIA, ferch IOPEX, caethferch IUPIEIDES	RHIAN CLOSE

Cyfarwyddyddion: Menna Lewis
Gareth Miles

Beirniadaeth
Y Br Huw Ceredig

Ail-Ŵyl Ddrama Tafod ~ Elái.

Beirniad: Br. Huw Ceredig.

I'r gloch bob nos.

1 noson ... £1.00
2 noson ... £1.50
3 noson ... £2.00

Hanner pris i'r henoed, plant ysgol a'r diwaith.

Neuadd Dowlais

LLANILLTUD FAERDRE

NOS FERCHER, IAU
A GWENER
18-20 TACHWEDD 1987

Cydnabyddir Cefnogaeth
CYMDEITHAS DDRAMA CYMRU

Darperir lluniaeth ysgafn

50 c

NOS FERCHER

CWMNI YSGOL UWCHRADD CWM RHYMNI

7 o'r gloch

Yn perfformio 'Ac Er Gwaeth' gan William Owen. Pwnc gwir amserol - creulondeb i wragedd - yr olygfa mewn hostel cymorth i ferched. cawn ddisgrifiad o un bore yn hanes gwraig ifanc sydd newydd orfod dychwelyd i'r hostel, a'r sgwrsio rhyngddi a'r wraig ganol-oed gall iawn sydd yn glanhau'r hostel.

CAST

Gwyneth - Lisa James
Karen - Catrin Brooks
Lis - Alisosn Coles
Mair Preis - Samantha Hutchings

Rhelowr Llwyfan - Alun Davies

Y criw ffodus! Wel i gyd yn aelodau brwdfrydig, egniol o'r chweched isaf, ac yn brofiadol mewn sawl maes - gan gynnwys drama! Maent yn mwynhau perfformio mewn cystadlaethau dramatig lleol, mynychu cyrsiau drama a chynnal nosweithiau dramatig yn yr ysgol. Eu gobaith yw parhau i ddatblygu eu talentau er mwyn chwarae'r prif-rannau ar gyfres 'Pobl y Cwm' rhyw ddydd.

8 o'r gloch

CWMNI YSGOL GYFUN RHYDFELEN "IAN"

Perfformiwyd yn wreiddiol yn 1983 ac enillodd y drydedd wobr yn Eisteddfod yr Wyddgrug.

Stori fach syml am fachgen tlawd o'r enw 'Ian' sy am fynd i Langrannog, ond oherwydd ei gefndir teuluol, sydd yn methu fforddio. Ei ffrindiau yn dod i'r adwy, a'i helpu ar y daith.

Awdur y caneuon: Sian Morgan Ellis.

Actorion

Ian Owain Rhys
Tad Ian Staples
Mam Maria Pride
Ffrindiau Ian:
Ben Lee Jones
Maria Emma Caddy
Athrawes Lowri Williams

YSGOL GYFUN RHYDFELEN
DYDDIAU FU
ADRAN DDRAMA
ADRAN DDRAMA
YN DATHLU
25 oen gen blwydd yr ysgol

9 o'r gloch

CWMNI BWR' CRWN
PLANT - Ysgol Gyfun Glantaf

Aelodau'r cast yw grŵp drama lefel A y chweched isaf yn Ysgol Gyfun Glantaf. Y cyflwyniad hwn yw'r darn gorffenedig, wedi rhai wythnosau o waith ymarferol arbrofol yn y dosbarth. Mae'n gyfuniad o'r elfennau meim, symudiad, deialog a cherddoriaeth i gyfleu'r syniad o'r drwg 'mewnol', haniaethol mewn person yn troi'n ddrwg corfforol, sef salwch pla. Dyma'r tro cyntaf i'r grŵp weithio â'i gilydd ar gyfer cynhyrchiad, ac i berfformio o flaen cynulleidfa.

PLAnt

Claire Watkins-----un o'r plant, y fam.
Sara Ogwen---------y ficer.
Leanne Rochefert---un o'r plant, Mair y ferch.
Lowri Evans--------un o'r plant, y famgu.
Heledd Williams----y ferch, Bethan.
Angharad Rogers----un o'r plant.
Rhys Thomas--------y tad.

tafod elái

FFAIR GAEAF
YSGOL GYFUN RHYDFELEN
RHAGFYR 5ed 1.00 pm
SION CORN CYMRAEG

CWMNI CLWB IFOR BACH

Gwyl Ddrama Tafod Elai llynedd ysgogodd rai o aelodau Clwb Ifor Bach i sefydlu cwmni drama. Enillodd y cwmni dlws yr ŵyl gyntaf hon gyda'u perfformiad o 'Gaffi Sam' gan Rhys Llwyd.

Ers hynny mae'r cwmni dan eu henw newydd CWMNI'R FUWCH GOCH wedi perfformio yng Nghlwb y Bont, yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid ac yn Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog ble cawsont yr ail wobr.

Ar hyn o bryd mae'r cwmni'n paratoi tair drama 'Y Practis' - Leyshon Williams, 'John Huws Drws Nesa' - Cynan, a'r 'Gadair Olwyn' gan Wil Sam ar gyfer eu perfformio yng Nghlwb Ifor Bach, Aberdâr a Brynaman.

Perfformir dwy o'r dramau hyn yng Ngŵyl Tafod Elai eleni.

Barchus gynulleidfa!

Ymunwch â ni mewn ymarfer drama a byddwch dystion i'r holl broblemau, twp a dyrys, ddaw i ran cynhyrchydd arbennig a orfodir i gyd-weithio ag actorion nad ydynt mor arbennig â hynny. Oes rhaid dywedyd rhagor?

CLWB IFOR BACH

"Y PRACTIS" gan Leyshon Williams

WILLIAM TOMOS	- Anthony Evans
JEMIMA	- Nerys McKee
MARI	- Mari Lisa
TWM	- Gareth Westacott
DIC HUWS	- Ceri Morgan
HARRIET	- Angharad Jones
GWEN	- Gail Jones
WINNI	- Glenys Llewelyn
MRS DIC HUGHES	- Kathryn Rowlands
Y DYN A'R BAG	- Linda Tomos
CYFARWYDDWR	- Ynyr Williams
IS-GYFARWYDDWR	- Christine Manning

CWMNI UN-NOS yn perfformio

'Y DDRAENEN FACH' gan Gwenlyn Parry.

Martin	- milwr ifanc	- John Hardy
Lewis	- milwr canol oed	- Allan Pickard
Green	- milwr canol oed	- Eurof James
Williams	- milwr ifanc	- Bryn Roberts
Almaenwr	- milwr ifanc	- Eddie Thomas

Golygfa:- Seler tŷ wedi'i fomio ar arfordir Gogledd Affrica.

"Dyma ffordd fendigedig i dreulio'r Nadolig yn gaeth yn y twll drewllyd 'ma, a'r Jerries, - y diawliaid bach na mewn iwnifform, - dros y ffordd yn cynllunio i'n lladd ni."

Alegori sy'n darlunio nid yn unig y gwrthdaro amlwg mewn rhyfel ond y gwewyr meddwl, y penbleth, y pryderon a'r dadleuon moesol sy'n naddu eu ffordd i mewn i eneidiau pob dyn byw wrth fod yn dystion mewn rhyfel.

Egwyl

Baby Fayre
FFYNNON TAF 810313
PERCHENNOG
MRS G. ROWLANDS
ARBENNIGWYR MEWN
GWISG YSGOL
AR GYFER YSGOL GYFUN
RHYDFELEN A LLANHARI

CWMNI'R FUWCH GOCH

"Y GADAIR OLWYN" - Wil Sam (W.S. Jones)

At bwy mae'n cyfrifoldeb ni? Elin Ifans at ei mam, Leusa, Gwen Ifans at ei mam, Elin, a'i nain, Leusa, ac at ei dyweddi, Ifan. Doctor Gruffydd at ei glaf, Leusa Ifans, (neu at Gwen Ifans) a Magi Huws yn dyst i'r cwbwl. Dydy nain ddim mor dwp chwaith ond beth fydd ei thynged?

Nansi	- Hasel Morgan
Elin Ifans	- Ceri Mair Jones
Gwen Ifans	- Ann Parry
Ifan	- Dai Boobier
Magi Huws	- Menna Medi Jones
Doctor	- Emyr Lewis
Cyfarwyddwr	- Siw Hughes

G & N FOLLIS
PENTYRCH
LLYFRAU, TEGANAU,
SIOCLEDI, CAFFI DE,
CLWB FIDEO NEWYDD
AR AGOR
6AM -8PM
YN YSTOD YR WYTHNOS
6AM -1PM DYDD SUL

SIOP Y BONT
CREIGIAU
PERCHENNOG
MRS CHRISTINE MALCOLM
ARBENNIGWYR MEWN
GOSOD BLODAU
BLODAU I'R NADOLIG
LLYSIAU, FFRWYTHAU
CEFNOGWCH EICH SIOP LEOL

CWMNI'R DWRLYN

'Y DYN CODI PWYSAU' W.S. Jones

Wedi llewyrch (nid buddugoliaeth, chwaith) y llynedd penderfyniad Clwb y Dwrlyn oedd mai dim ond teg â Wil Sam oedd perfformio drama arall o'i eiddo eto eleni. Mae'n siwr y bydd y dramodydd yn falch iawn (yn arbennig o'r gini tâl perfformio!).

Ond, o ddifri, mae'r cwmni talentog hwn â'u bryd ar ennill yn yr Ŵyl eleni, ac i'r diben hwnnw wedi ychwanegu cryn dipyn o dalent at y criw medrus oedd wrthi'r llynedd. I roi arlliw proffesiynol i'r perfformiad cytunodd Brian Davies a Huw Llywelyn Davies (y ddau'n arbenigwyr ar godi pwysau yn ogystal â rygbi) i ychwanegu'u pwysau nid bychan hwy at yr ymdrech; mae trysorydd Clwb y Dwrlyn yn y cast hefyd i gario'r wobr adref; yn bwysicach hyd yn oed, llwyddasom i gael Trefnydd yr Ŵyl i gymryd rhan. Nid wy'n amau na fyddai'r beirniad hefyd wedi cytuno i chwarae rhan yr hen ŵr - y fwyaf addas iddo - ond fod 'i ffi yn rhy uchel.

Mae Elin Owen, mam Robat y bachgen codi pwysau ar bigau'r drain: i Robat i chychwyn hi am Gaerdydd i fod ar y telefision - roedd hi'n ddyddiau cynnar y rhyfeddol (bwgan?) hwnnw - a'r gair 'teledu' heb'i eni; ar bigau'r drain hefyd y bydd yn cyrraedd mewn pryd.

Ond fydd hynny'n digwydd? Fydd yna ddigon o fwyd - heb sôn am gadeiriau - i'r cymdogion sy'n dod i weld rhaglen Robat? Fydd y plant (mawr) yn byhafio? Pwysicach fyth fydd y telefision yn byhafio?

Cast

Elin Owen	- Ann Dwynwen Davies
Taid	- Ifan Wyn Williams
Robat	- Brian Davies
Gwen	- Nerys Snowball
Dafydd	- Rhodri Gwyn Jones
Mici Marconi	- Huw Llywelyn Davies
Mr Huws	- Colin Williams
Idwal	- Iwan Griffiths
Jane Jones	- Eiry Rochford
Mrs Huws	- Nia Williams

Technegol
Rhodri Glyn Jones, Lorraine Beard,
Enid Davies, Nia Wyn Williams, Roy Davies.
Cynhyrchydd - Ifan Wyn Williams

7.00
NOS WENER

CWMNI'R FUWCH GOCH

'SALŴN SAL'
gan Nansi Pritchard

Sal Salŵn	Siân Tesni
Lil	Menna Medi
Meri Lŵ	Hazel Morgan
Hanc	Gareth Jones
Ben	Hywel James
Cowboi	Emyr Williams
Sheriff	Anthony Evans
Sam Styllen	Ceri Morgan
Preis Pres	Prys Davies
Parch	Emyr Lewis

CYNHYRCHWYR Elin Evans a Siân Eynon

"Roedd hi'n dawel iawn yn Salŵn Sal a'r merched yn ddiflas.

Ond gwellodd pethau'n sydyn pan alwodd Hanc a Ben ar eu ffordd i Abeline. Pan gyrhaeddodd Cowboi arall i ddweud bod Dic Dau Wn ar ei ffordd i'r dre, dechreuodd y Salŵn lenwi, a bu cynnwrf mawr cyn hanner dydd."

8.00
NOS WENER

CWMNI UN NOS
yn cyflwyno
"UN BRIODAS"
gan John Gwilym Jones
(o'r Ddrama 'RHYFEDD Y'N GWNAED')

Cymeriadau:
MEG - Carol Hardy
DIC - John Hardy

"'Does neb yn gwybod ond y ni. I bawb arall rydan ni'n ...ŵr a gwraig."

9.00
NOS WENER

Y FEIRNIADAETH - JOHN HEFIN

TRYDEDD GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI 1988

BEIRNIAD - JOHN HEFIN

Nos Fercher, Iau a Gwener

7.00 o'r gloch 23 - 25 Tachwedd

NEUADD DOWLAIS

LLANILLTUD FAERDREF

Llunlaeth ysgafn ar gael.

Rhaglen 60c

tafod elai

Gair gan
Drefnydd yr Ŵyl

Colin Williams

Croeso. Ie'n wir mae'n braf eich gweld chi yma eto eleni. Hebddoch chi.....

Mae'r Ŵyl yn mynd o nerth i nerth ac ar un adeg roedd hi'n edrych fel pe byddai angen pedair noson arnom, a dyma a ymddangosodd ar ambell boster, ond na, yr un yw'r fformat â'r llynedd. Yr un fydd y llwyddiant mi waranta.

Y mae pedwar cwmni yn ymgiprys am y **'Tlws Ysgolion Uwchradd'** ac y mae pedwar cwmni hefyd yn cystadlu am y **'Tlws Oedolion'**. Cyflwynir cwpan arian y **Tafod** i un o'r ddau gwmni buddugol i'w ddal am flwyddyn.

Oes, mae 'na gystadleuaeth felly - cystadlu iach rhwng hen ffrindie. Eleni, y mae gwahoddiad oddi wrth Cymdeithas Ddrama Cymru i'r ddau gwmni buddugol gystadlu yn yr Ŵyl Ddrama Brydeinig ym mis Mehefin.

Y mae'n rhaid diolch i'r wyth cwmni am eu cydweithrediad a hynny yng nghanol prysurdeb cyfnod ymarfer. Rhaid diolch hefyd i fwrdd golygyddol y Tafod am ei gefnogaeth a'i ymddiriedaeth. Cyfeiriodd nifer ohonoch y llynedd at awyrgylch arbennig yr Ŵyl hon yn Llanilltud Faerdref. Y mae awdurdodau Neuadd Dowlais yn hwyluso'r trefniadau ac y mae'r gofalwr, Mr W.J. Hoare yn barod ei gymwynas bob amser.

Y mae gwaith caled y criw arlwyo yn ystod yr egwyl yn ychwanegu at fwynhad pawb. Eleni mae ein diolch yn fawr i Gylch Meithrin Tonteg am ein bwydo a'n di-sychedu nos Fercher, i Bwyllgor Apêl Creigiau am nos Iau ac i bwyllgor Apêl Pentyrch am luniaeth nos Wener. Ni fydd cystadleuaeth swyddogol rhyngddynt! Byddant yn defnyddio llestri gore Capel Tabernacl, Efail Isaf felly mae ein diolch i awdurdodau'r Capel am eu parodrwydd arferol - fe'u sicrhawyd na fyddai neb yn mynd dros ben ----.

Un gŵr y mae pob cwmni'n ddyledus iddo yw Roy Davies. Ef yw Ymgyngorydd Technegol yr Ŵyl ac hebddo ni fyddai pethe'n rhedeg mor llyfn.

Yn olaf ac yn flaenaf, yr ydym yn arbennig o falch i allu cyhoeddi ein bod wedi sicrhau gwasanaeth John Hefin yn feirniad arnom. Ydy, mae'r Ŵyl wedi hen ennill ei phlwyf.

Steddwch nôl i joio.

CLORIANNYDD YR ŴYL

Brodor o Aberystwyth yw John Hefin ac fe'i addysgwyd yn Ysgol Uwchradd Ardwyn a Choleg y Drindod. Ymunodd ag Adran Ddrama'r BBC ym 1962 ac fe'i apwyntiwyd yn gynhyrchydd ym 1965. Y mae wedi bod yn gysylltiedig â ffilmiau nodedig o gofiadwy megis 'Grand Slam','Dummy Run' a saethwyd yn y Maes Cenedlaethol, "The Day Seemed So Good' a saethwyd yn Eryri, 'Black as Hell and Thick as Grass','The Most Valuable Englishman Ever'!!!(Thomas Paine oedd hwnnw gyda llaw),'Off to Philadelphia in the Morning','Mimosa Boys' ac wrth gwrs 'The Life and Times of Lloyd George'.

Yn ogystal â'i waith Cymreig yn yr iaith Saesneg yr ydym yn ei adnabod am ei weledigaeth yn y Gymraeg. Chwi gofiwch y clasuron 'Y Stafell Ddirgel' a 'Rhandirmwyn' ac, yn fwy diweddar, y mentrus 'Bonner' a'r bythgofiadwy gofnod 'Penyberth' ac hefyd y cynhyrchiad ysbrydoledig hwnnw a enillodd Gwobr Pye, y llesmeiriol 'Gwenoliaid'. Ansoddeiriau ysgubol ond cwbl haeddiannol i ddisgrifio cyfraniad anferthol y gŵr hwn i'r ddrama deledu yng Nghymru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Yn y misoedd diwethaf y mae John Hefin wedi ei apwyntio yn gyfarwyddwr 'Ffilm Cymru' ac onid yw'r gŵr iawn wedi cael ei ddewis i gomisiynu ffilmiau theatrig ar ein cyfer ni'r gwylwyr? Bydd fersiwn ffilm o 'Bowen a'i Bartner' ar ein sgrîn dros y Nadolig ac yn y sinemau maes o law.

Hoffai Bwrdd Golygyddol Tafod Elai ddiolch i Gymdeithas Ddrama Cymru am eu cefnogaeth ariannol i'r Ŵyl.

DYMUNIADAU GORAU I'R ŴYL
oddi wrth

Three Arch Press Ltd.

ARGRAFFWYR
LLYFRAU
TAFLENNI HYSBYSEBU
LABELI
BONION NCR
GWASANAETH CYNLLUNIO

LLANTRISANT (0443) 227227
UNIT C1/2 COEDCAE LANE IND. EST. PONTYCLUN

7.00
NOS FERCHER

CWMNI DRAMA YSGOL GYFUN LLANHARI

"Pum miliwn allan o waith? Ieuenctid rhwystredig, allan o waith, dim gobaith o gwbl, yn arllwys eu casineb ar y strydoedd. Cyfnodau hir o ddiflastod? Y teimlad fod pawb a phopeth yn eich erbyn? Anobaith llwyr."

Daeth criw ohonom sy'n astudio Drama yn y chweched isaf at ein gilydd i greu drama am bobl ifanc - pobl ifanc 'run fath â ni - ac ateb cymdeithas i'w problemau yw :-

AR DY FEIC

gan

Eurliw Dafydd	Alison John
Rhiannon Davies	Hannah Maw
Curon Evans	Tracey Morris
Keeley Greening	Rebecca Ellis Owen
Elain Haf	Dean Powell
Dale Hyes	Meinir Thomas

DEWCH I

C.A. JONES & J.D. MORRIS LTD.
FFERYLLWYR

I sawru ein dewis eang o beraroglau

CHANEL, LOU LOU, YOUTH DEW

WHITE LINEN, ANAIS ANAIS
OPIUM 50ml EDT Spray - Pris Arbennig £29.00

AC I'R DYN YN EICH BYWYD

ARAMIS, KOUROS, QUORUM

a llawer mwy

TONTEG 203479 LLANHARAN 226223

TONYSGUBORIAU 226114

8.00
NOS FERCHER

CWMNI YSGOL GYFUN RHYDFELEN

"NAFAHO"

Mewnlifiad o ddieithriaid estron yn bygwth ffordd o fyw, iaith a thraddodiadau'r boblogaeth gysefin. Na, pidwch â phoeni, does dim rhaid i chi sgrechian am Elwyn Jones i amddiffyn pobl rhag meddwl. Sdim sôn am Gymru yma. Yn hytrach, gwers ddrama mewn ysgol a'r ffin rhwng realiti a ffantasi'n cymysgu. Hanes llwyth Indiaid Cochion y Nafaho, America, a gafodd eu difa fel rhan o'r broses resymoli a ddigwyddodd yn y wlad rydd, ddemocrataidd honno.

Allai'r cyfryw sefyllfa fyth ddigwydd yng Nghymru - galle fe?

MANUELITO	-	Ian Batte
ARMILJO	-	Lee Jones
JÂMS	-	Brett Duggan
ALEMENA	-	Emma Caddy

CORWS -
Richard Harrington, Mathew Bennet, Simon Thomas, Owain Rhys Lloyd, Gafyn Jones, Carwyn Williams, Ceri Type, Marc Wyn Jones, Lowri Williams, Stephanie Jones, Delyth Caffery, Jenny Jones, Kora Hill, Stephanie Ffoulkes, Heledd Mai Davies, Sali Paul, Nic Davies, Owen Jones, Christopher Davies, Meurig Jones, Dylan Richards, Alun Griffiths.

Ysgrifennwyd y gân gan Eirlys Gravelle.

9.00
NOS FERCHER

CWMNI'R DWRLYN

PRY FFENAST gan John Gwilym Jones

ACTORION:

Ann Dwynwen Davies	Margaret Lloyd Hughes
Rhodri Gwyn Jones	Ifan Wyn Williams

LLWYFAN:

Nerys Snowball	Mari Elin
Nia Wyn Williams	Roy Davies

Digwydd y chwarae yn ffermdy Dora, gwraig weddw, a'i mab Huw. Eu dau gariad, Eifion a Madge yw'r ddau gymeriad arall, sy'n cyfarfod am y tro cyntaf; ond nid dyma'r tro cyntaf i Dora a Madge gwrdd. Cynhyrchwyd y ddrama hon yn wreiddiol ar y radio chwarter canrif yn ôl. Gobeithir y bydd y cynhyrchiad llwyfan hwn yn dangos ei hapêl i bob oes.

7.00
NOS IAU

CWMNI YSGOL GYFUN GLANTAF

"OS FFRINDIAU, FFRINDIAU"

Sali - Gwenllian Lewis
Gill - Rebecca Evans
Siân - Sara Weale

Ysgrifennwyd yr olygfa ola' o'r tair yma, ar ein cyfer, gan Ieuan Rhys y llynedd.

Sgriptiwyd y ddwy olygfa gynta' gan y merched sy'n perfformio, ac maent yn ganlyniad gwaith sydd wedi deillio o drafodaethau ar yr un ola'.

Yn y drioleg, dilynnir tair ffrind, Sali, Gill a Siân, drwy wahanol gyfnodau yn eu bywydau.

8.00
NOS IAU

CWMNI DRAMA YSGOL GYFUN CWM RHYMNI
yn cyflwyno
DARGANFOD

"Dad .... o ble mae babis yn dod?"
"Beth? .. ie .... wel .... ym .... haha .... cer i ofyn i dy fam."
"Mam .... o ble mae babis yn dod?"
"Beth? ie, wel Lowri. Rwyt ti braidd yn ifanc eto i wybod y pethe 'ma"
"Pryd fydda i'n ddigon hen te?"
"O gawn ni weld nawr. Blwyddyn nesa efalle"
"O"
"Pam wyt ti'n gofyn nawr te Lowri?"
"Mae'r merched yn yr ysgol i gyd yn siarad amdano fe."
"Jiw jiw, mae plant yn darganfod y pethe hyn yn ifanc y dyddie 'ma"

Y SGRIPT GAN DELYTH CAMPBELL

ACTORION

DENISE	Sioned Jones
CATRIN	Hâf Kibble
LOWRI	Bethan Ebenezer

CYNHYRCHWYR - Delyth Campbell, Lowri Cynan
CERDDORIAETH - Geraint Cynan

9.00
NOS IAU

CWMNI DRAMA CLWB Y BONT

Eleni, bydd Cwmni Drama Clwb y Bont yn perfformio "**TROI'R BYRDDAU** - Chwaraeawd Un Act gan GWYNFOR". Na, nid y gwleidydd o Langadog, oherwydd ar y flaen ddalen fe nodir: Am ganiatad i berfformio'r "Sketch" hon anfoner at

GWYNFOR,
Caernarfon.

Ond waeth inni heb â sgrifennu, gan fod "Gwynfor gu'n ei fedd", chwedl R. Williams-Parry, ers ymron i hanner canrif. Ie, yr HEN ACTOR yw'n hawdur, a goffhawyd yn gynnes iawn gan fardd CERDDI'R GAEAF:

O siriol y sieryd ein brawd, sy mor brudd
Am "droad y rhod" ac am "doriad y dydd";
Mae Gwynfor yn actor digymar mi wn,
Ond prin y mae'n llwyddo i'n twyllo'r pryd hwn.

Hanes tri aelod o'r "werin gyffredin, ffraeth" yn troi'r byrddau yn erbyn eu cyflogwr milain, gyda chymorth merch ifanc awdurdodol a phenderfynol sy'n gweithio fel swyddog gyda'r Cyngor Sir, a geir yn y ddrama. Yr ydym yn ffyddiog y bydd mor ddyrchafol ac addysgiadol â'n cynhyrchiadau blaenorol.

CYMERIADAU

EDWARD CADWALADR (Arwerthwr)	Owain Llewelyn
CADNANT JONES (Clerc)	Gerallt Pennant
MORRUS JOHN MORRUS (Clerc Bach)	Dafydd Williams
SECARIA PARRI (Drofer)	Hefin Griffiths
DAFYDD JAMS (Ffermwr)	Llyr Williams
AP SIENCYN	Griff Davies
CORNELIUS PETERS	David Francis
MARIA JENKINS	Anna Jones
MEM HUWS	Menna Lewis
MALLTWEN MORGAN (Swyddog dan y Cyngor Sir)	Rhian Close

CYFARWYDDWYR: MENNA LEWIS A GARETH MILES

Gŵyl Ddrama Tafod Elai

yn

Neuadd Dowlais,

Llanilltud Faerdref

23-24-25

Tachwedd

1955

Beirniad

John Heflin.

Trefnir: Anscn-Elan

Llywydd Ysgolion

7.00 Nos Iau

YSGOL GLANTAF - Cyflwyniad theatrig o dan y thema "Rhyfel".

Cyfres o ddarnau ymarferol a geir yma, wedi'u llunio gan y chweched-isaf wrth weithio ar y thema uchod. Maent yn ceisio dangos gwahanol agweddau ar ryfel, tra'n arbrofi â dulliau-perfformio amrywiol.

Aelodau'r grŵp:

Ceri Rhys Davies.
Dathyl Evans
Meleri Evans
Medi Evans
Claire Howells
Manon Jones
Ruth Jones
Siân-Elin Jones
Sioned Lloyd-Jones
Nia Lloyd
Catrin Powell
Elena Rees
Catrin Rhys
Branwen Roberts

(Grŵp chweched-isa' Lefel 'A' Drama.)

8.00 Nos Iau

CWMNI YSGOL GYFUN CWM RHYMNI yn cyflwyno

TISIW - Louise Page

Sali	Caryl Davies
Y Fam)	
Fflur)	Catrin Hughes
Meddyg)	
Ysgrifenyddes)	

Merch sydd wedi cael Masectomy yw Sali. Yn y darn hwn gwelwn ymateb y gymuned i'w "anghydbwysedd" a theimladau israddol Sali o'i hunan o'i chymharu â merched eraill.

"Mae nhw'n berffaith; dwi ddim bellach,
a fydda i fyth."

9.00 Nos Iau Y Feirniadaeth - T. James Jones

Gŵyl Ddrama Tafod Elái

1989



50c.

Y BEIRNIAD - T. JAMES JONES

T. James (Jim) Jones yw'r hynaf o'r tri brawd dawnus o Barc Nest, Adpar, Castell Newydd Emlyn. Fe wyr Cymru ben-baladr amdano fel eisteddfotwr - yn adroddwr a bardd. Ef oedd bardd Coron Abergwaun a Choron Casnewydd.

Wedi gyrfa weinidogaethol bu'n ddarlithydd yn y ddrama yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Ysgrifennodd ddramau llwyfan, "Pan Rwyga'r Llen" a "Nadolig Fel Hynny" a drama deledu, "Y Gyfeillach", a welwyd rai blynyddoedd yn ôl.

Campwaith arall a luniodd oedd ei gyfieithiad o "Under Milk Wood" Dylan Thomas, "Dan y Wenallt".

Ers rhai blynyddoedd bellach y mae'n olygydd sgriptiau gyda BBC Cymru, yn gweithio'n bennaf ar y gyfres deledu "Pobol y Cwm".

7.00 Nos Fercher

Cyflwyniad Ysgol Gyfun Llanhari.

"Yr hwn sydd ganddo glustiau....."
gan ddosbarth 6, Ysgol Gyfun Llanhari.

Cyflwyniad i ddaeth i fod ar ôl sawl sesiwn gweithdy yn yr ysgol yw "Yr hwn sydd ganddo glustiau.....".

Mae'n cyfrwrdd â nifer o themâu / safbwyntiau cymdeithasol, ond fe'u gwelir, fel cyfres o ddarluniau datgymalog, trwy lygaid un nad yw'n perthyn i'r gymdeithas mwyach.

Nid oes yna neges, fel y cyfryw, ond mae yna ddatganiad cadarn -

Mae pob elfen o'r gwaith yn ceisio pwysleisio na ddylid gwrthod y person sy'n wahanol, y person sy' ddim yn "ffitio" i'r gymdeithas.....

"Yr hwn sydd ganddo glustiau,.....
....gwrandawed."

AELODAU'R CWMNI
Anwen Carlisle.
Elin Davies.
Mari George.
Crisian Hunnam.
Bethan Mason.
Gareth Williams.
Joanne Williams.
CYNHYRCHYDD
G. Marc Roberts.

NODDWYR YR WYL

Diolchwn am eu cymorth

FILM CYMRU

ARCH PRESS LIMITED

fflic

8.00 Nos Fercher

CWMNI'R FUWCH GOCH yn cyflwyno

'HELYNT Y MEFUS'
Rhiannon Parri

Comedi fer wedi'i seilio ar dwyll ac arian parwch. Hanes a helynt dwy chwaer gybyddlyd sy'n ceisio cuddio'r gwirionedd er mwyn arbed arian.

Ond beth i wneud â'r corff?

Dyna'r cwestiwn mawr!

CYMERIADAU

Ceti Morris : Ann Pari
Ann Morris : Menna Medi
Mrs Cadnant Jones : Kathryn Rowlands
Dr. Humphreys : Noeline Thomas
Mr. Morris : Ceri Mair

9.00 Nos Fercher

CWMNI'R BONT yn cyflwyno

'DAL Y DDYSGL YN WASTAD'
gan William Parry

Yr Eglwys yn erbyn y Capel, y Capel yn erbyn yr Eglwys, a'r Byd yn erbyn y naill a'r llall. Twlwch Dori a Liberal mewn wedyn a blaenor neu ddau a dyna chi - Drama.

Y CYMERIADAU

Mrs Jones - gwraig weddw yn cadw siop	- Gerallt Pennant
Bob - Bachgen yng ngwasanaeth Mrs Jones	- Hefin
Mrs Evans - mam Bob	- Menna Thomas
Enoc Evans - Tad Bob, torrwr beddau	- Geraint Thomas
Mr Black - y Person, Sais wedi budr-ddysgu Cymraeg	- Owain Llew.
Mr Pugh - Gweinidog Bethel	- Dafydd Idris
Mr Wyn - Blaenor o Bethel	- Dafydd Siop
Mr Davies - Ymgeisydd Rhyddfrydol	- Marc Lloyd Jones
Robin y Rhes) Dau segurddyn yn y Pentref	- Bleddyn Rhys
Wil Bet)	- Geraint Evans
Johnny) Dau fachgenyn, un yn drwsiadus	- Anna Jones
Ned) a'r llall yn garpiog	- Dilys Davies



1 9 9 0

"Mab i chwarelwr o Ddeiniolen, Sir Gaernarfon, ydw i. A rydw i'n hollol sicr mai straeon celwyddog llawn ffantasi fy nhad roddodd yr awydd i mi 'sgrifennu."

- Gwenlyn Parry

Addysgwyd Gwenlyn Parry yn Ysgol Ramadeg Brynrefail ac yn Coleg Normal lle ymddiddorai yn y theatr tra oedd Ryan Davies a Rhydderch Jones ymhlith ei gyfeillion yno. Ar ôl dychwelyd i Gymru i fod yn athro yn Methesda, Caernarfon, dechreuodd ddod i'r amlwg yn y byd llenyddol ac enillodd wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn 1966 cafodd swydd gyda BBC Cymru a daeth yn ddiweddarach yn Brif Olygydd Sgriptiau. Ysgrifenodd lawer a chynhyrchodd nifer o raglenni poblogaidd ar gyfer y teledu megis 'Fo a Fe' a 'Phobol y Cwm' a 'Grand Slam'. Ymysg ei ddramau mae Saer Doliau (1966), Tŷ ar y Tywod (1968), Y Ffin (1973) ac 'Y Twr' (1978).

Do fe aeth blwyddyn heibio ers yr Wŷl Ddrama ddiwethaf. Blwyddyn hynod fu hi hefyd. Dathlodd y Tafod ei bedwerydd penblwydd - y bwrdd golygyddol fwy neu lai yr un rhai a'r pen bandit mor ddiwyd ag erioed. Paratowyd ar gyfer prifwyl Cwm Rhymni, fe ddaeth ac fe aeth honno gan adael atgof melys 'da pob un a fynychodd y maes. Fflachiodd talent ifanc newydd yn ein ffurfafen yn feddyginiaeth 'antidote' rhag ymosodiad meddygon ysgeler. Bu'n rhaid mynd ati o ddifrif gyda'n 'Steddfod ni yn prysur agosau.

Ergyd dryma'r flwyddyn fu colli cyfaill annwyl, un a ymgorfforai ysbryd ein Gŵyl Ddrama. Er mor dalentog ei hunan, y parodrwydd i gymryd rhan ac i annog eraill yn bwysicach na dim iddo. Er cof amdano cyflwynir TLWS IFAN WYN i'r cwmni buddugol yn yr Adran Ddrama.

Eleni gwelir pantomeimiau a noson lawen hefyd. Siawns nad oes 'na rywbeth at ddant pawb ohonoch. Croeso cynnes, mwynhewch. Y mae'n braf fod un person arbennig iawn wedi'i gweld yn dda i fentro atom - Mistar Drama ei hun, Gwenlyn. Croeso mawr iawn iddo yntau.

Cofnogwch noddwyr yr Wŷl.

CAMBRENSIS

NOS IAU, 22ain TACHWEDD

7.00 p.m. Pantomeim Ysgol Gyfun Llanhari

"CERIDWEN A'R CRWBANOD"

Yr Actorion:	Sian Jones Claudine Lewis Glyn Lewis Daniel Swain Mari Thomas Gareth Wakefield ac eraill
Y Sgript:	Daniel Swain Rhodri Bowen Miss Jones Gyda chymorth yr actorion
Y Caneuon:	Gareth Williams
Y Cerddorion:	Gareth Williams Daniel Rochford A'r actorion
Cynhyrchydd:	Catrin Jones

Y Stori:

O'r Creigiau y daw Ceridwen. Mae'n sefyll deuddeg T.G.A.U. a gradd 8 ar y delyn ond mae'n adyn anghymdeithasol. Does ganddi ddim ffrindiau, dim cariad - yn wir, y mae ei bywyd yn ddiflas ..... Ond ..... Ydych chi'n credu mewn tylwyth teg? Ydych chi'n ffan o'r Turtles? Y pwynt yw - ydy Ceridwen?

8.15 p.m. Drama Ysgol Gyfun Glantaf

Cyfres o olygfeydd dan y testun Rhyfel yw cyflwyniad Glantaf. Buont yn gweithio ar y testun fel cywaith yn eu gwersi drama yn ddiweddar.

RHYFEL

Ar ffurf rhaglen ddogfen Newyddiadurwr Ioan Gruffydd. Bydd Ioan yn cyflwyno'r rhaglen.

Yr eitem gyntaf

(We'll Meet Again gan Lowri Mair Jones.)

Golygfeydd allan o fywyd gweddw rhyfel, Mrs Megan Lloyd - Elen Elias Jones.

Yr ail eitem

(Streic y glowyr gan Euros Lyn)

Robert Roberts	-	Gwydion Lyn
Vernon	-	Paul Hailes
William	-	Heledd Lowri
Janet	-	Mari Wyn Williams
Catrin	-	Lowri Jones
Sioned	-	Delyth Evans

Ymdrin â streic y glowyr 1984 ac am ddigwyddiad a arweiniodd Bob Roberts i gael ei ddedfrydu i garchar.

Y drydedd eitem

(Breuddwyd Gabriel gan Heledd Lowri)

Gabriel	-	Heledd Lowri
Cydwybod 'A'	-	Iona Hughes
Cydwybod 'B'	-	Lowri Jones

Ymdrin â rhyfel ac artaith seicolegol merch sydd wedi dioddef problemau personol ac wedi bod mewn ysbyty'r meddwl am gyfnod

Y bedwaredd eitem

Cyfres o symudiadau i gerddoriaeth Penderecki sy'n ymdrin a rhyfel corfforol.

F I N A L E

NOS WENER, 23ain TACHWEDD

7.15 p.m. Cyflwyniad arbennig gan
GWMNI'R FUWCH GOCH

SIK - SIK, BRENIN Y CONSURWYR

Sik - Sik	-	Anthony Evans
Giorgetta	-	Noleen Davies
Rafele	-	Gareth Jones
Nicolo	-	Charles Davies

Addasiad gan Gareth Traws (Jones) o ddrama Eidalaidd ddechrau'r ganrif gan Eduardo de Filippo. Rydym yn dystion i anturiaethau'r consuriwr a'r problemau a ddaw yn sgîl hyfforddi prentis newydd. Dyfarnwyd yr ail wobr i'r cwmni yn y brifwyl gan y beirniad, Edward Thomas. Carai Tafod Elai ddiolch i'r cwmni am gydsynio i'r perfformiad ychwanegol hwn.

8.30 p.m. Cwmni Rhos-y-Gâr yn cyflwyno
TRO AR FYD gan Brenda James

Comedi gyfoes pum act wedi ei lleoli mewn cegin yng nghartref Huw ac Eleri.

Act I	-	Gobaith o iawndal wedi cyfnod o ddioddef.
Act II	-	Cyfnod ymadfer dod a'i broblemau ei hun.
Act III	-	Camau sionc yn cael eu cymylu gan ddeffröad di-addurn a chwerwder yn codi ei ben.
Act IV	-	Darbwyllo manwl cyn mentro bywyd newydd.
Act V	-	Pregeth rymus yn cael ei di-brisio. Tro ar fyd yn ysgwyd teulu.

Huw Davies - Lynn Adams
Eleri Davies ei chwaer - Glenda Jones
Leusa Jones, anti Leusa, Huw ac Eleri - Brenda James
Parchedig Eurwyn Williams, Gweinidog Bethel - Hywel Lewis
Rhiannon Evans, merch ambiwlans - Anne Rees
Sylvia Edwards, merch ambiwlans, a chariad Huw - Gwenda Adams
Tomos Davies, Wncwl Twm - Jac Roberts
Isabel Morgan, Ysgrifennydd yr 'Evergreen Club' - Olga Anderson

9.30 p.m. Y F E I R N I A D A E T H

Ydych chi'n cael pryd o Dafod bob mis?

Tafod elái

£25c y mis

neu

£2.50 tanysgrifiad blwyddyn

Cysylltwch â'r swyddog dosbarthu:

Silyn Roberts 9 Llys Garth, Meadow Farm,
Llanilltud Faerdref, PONTYPRIDD.

Ffôn: 0443 207562

GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

5

1991

Nos Fercher 20fed Tachwedd
Nos Iau 21ain Tachwedd
Nos Wener 22ain Tachwedd
- 7 o'r gloch bob nos

Neuadd Dowlais
Pentre'r Eglwys

Rhaglen swyddogol - 50c

GAIR O GROESO

Y mae'n siwr ein bod yn dwyn i gof Ŵyl y llynedd pan fu GWENLYN yn ein cwmni. Mawr yw'r golled yn y neuadd bentref, yn ein theatrau crandia' ac ar y sgrîn fach. Methodd â dod i feirniadu ddwy flynedd yn ôl gan ei fod bryd hynny yn gweithio ar sgript y ffilm UN NOS OLAU LEUAD. Mor braf oedd gweld cymaint yn bresennol yn y Muni. yn ei gwylio. Teilwng fu'r teyrngedau iddo yn ystod yr wythnos diwethaf a chydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

Diolch i chi am ddod i'n cefnogi eto eleni. Mae'n siwr fod rhywbeth o blith y chwe chynhyrchiad at eich dant. Diolch hefyd i'r cwmnïau am eu cefnogaeth a hithau mor brysur ar bawb. Rydym yn gwerthfawrogi'n arbennig bresenoldeb yr ysgolion hynny sydd yn cystadlu a hwythau wrthi'n llwyfannu cynhyrchiadau uchelgeisiol eu hunain. Buont hefyd yn gefnogol iawn i'r Ŵyl Gerdd Dant lai na mis yn ôl.

Rydym yn falch iawn o weld fod Cwmni'r Bont wedi dychwelyd ar ôl methu dod at ei gilydd y llynedd. Y mae "Cwmni Cwm Ni", Bedwas yma am y tro cyntaf a chystadlu yng NgŴyl y Tafod oedd un o'r rhesymau dros sefydlu'r cwmni - llongyfarchiadau iddynt a chroeso atom.

Y mae tair adran i'r Ŵyl sef PANTOMEIM, NOSON LAWEN a DRAMA. Bu un ysgol yn bygwth cyflwyno Pantomeim ond tynnu 'nôl ar y funud olaf fu'r hanes. Tipyn o syndod a siom nad aeth neb ati i lunio Cwmni Noson Lawen. Ysywaeth y mae chwe drama fer yn eich aros.

Gwobrwyir y cwmni gorau â THLWS IFAN WYN - rhodd gan ei weddw Nia a Chlwb y Dwrlyn. Hefyd bydd y cwmni yn cael cadw CWPAN ARIAN yr Ŵyl am flwyddyn - rhodd T.James Jones. Er fod digon i gystadlu amdano, diddanu a difyrru, cael hwyl yng nghwmni'n gilydd yw'r peth pwysig.

Y mae'r beirniad wrth ei fwrdd ac mae'r golau ar gael ei ddiffodd - mwynhewch.

Y BEIRNIAD

Ganed EMYR EDWARDS yn y Barri yn fab i'r prifardd J. M. Edwards. Graddiodd yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Caerdydd a bu'n athro Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Hawardian yn y brifddinas. Bu wedyn yn gynhyrchydd am gyfnod gyda chwmni teledu T.W.W. cyn iddo gael ei apwyntio yn ddarlithydd i Adran Ddrama Coleg Addysg Morgannwg yn ei dref enedigol. Symudodd i Bolitechnig Cymru yn Nhrefforest ac yno y mae hyd heddiw. Am gyfnod yn y chwedegau, ef oedd golygydd y cylchgrawn "Drama". Y mae'n adnabyddus hefyd fel cyfieithydd dramau. Ef yw sylfaenydd Cwmni Cenedlaethol yr Urdd ac ef hefyd yw cynhyrchydd Cwmni'r Gadwyn, Radur. Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Wyddgrug eleni daeth Emyr Edwards yn ail yng nghystadleuaeth y Goron. Fe ddaw ei wyneb yn gyfarwydd i'r disgyblion hynny sydd yn astudio drama safon uwch gan ei fod yn arholwr allanol y Cyd-Bwyllgor a bydd yn ymweld â'r ysgolion y tymor hwn i weld eu gwaith ymarferol.

Hei lwc iddynt hwy ac iddo ef ar ei dasg yma'r wythnos hon.



Nos Fercher
7.00 YSGOL GYFUN RHYDFELEN yn cyflwyno

"TRYFAN" gan John Owen

Pwy sy'n gyfrifol am newid y tywydd?
Beth yw'r cysylltiad rhwng Cwm Pennant a Phwll Deri?
Pam bod Elen yn tynnu'i dillad?
Mae hyn yn ddirgel wch ac yn waith i .... Gari Tryfan.

Y CAST

Tryfan	Rhodri Leyshon
Alec	Iwan England
Elen	Gwen Heulyn
Syr Huw	Adam Gravelle
Jarvis	Twm Davies
Sews	Owen Williams
Roy Gethin	Owain Morgan Jones
Gwyddonwyr	Eiry Miles
	Elin Llywellyn
	Merial Oliver
	Devan Oliver
	Andrew Morrissey
	Catherine Jones
	Geraint Todd

8.00 CWMNI YSGOL GYFUN LLANHARI yn cyflwyno

"IDWAL"

(Addasiad Catrin Jones o RHITHWELEDIGAETHAU RHYFEDD IDWAL gan Gwyneth Evans)

"Fe ddechreuo dd y peth gyda breuddwydion, chi'n gwybod, y teip o beth y mae pawb yn ei gael ....."

Croeso i fyd ffantasi Idwal a'i ffrindiau. Cwmni ifanc, brwdfrydig, ENFAWR ydym ni o Ysgol Gyfun Llanhari a daethom at ein gilydd am y tro cyntaf ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd Taf Elái eleni. Yno er mawr foddhad cawsom yr ail wobr. Ond trist oedd meddwl ei gadael hi ar hynny, felly dyma ddihuno'r hen Idwal o'i drwmgwsg ...
Byddwch effro - mae pethau rhyfedd yn digwydd ym mro'r "Tafod" .....

Y CAST

Bradley Freegard	Gwenllian Willis
Michelle Thomas	Lesley James
Dyfan Jones	Amy Ryan
Gareth Lewis	Bethan Willis
Lisa Snowball	Bethan Gibson
Manon Phillips	Mari-Elin
Owen Phillips	Angharad Devonald
Mathew Jenkins	Rachel Davies
Janine Thomas	Gemma Morgan
Rachel Edwards	Donna John
Tim Russell	Eleri Knight
Lee James	Rhian Hicks
Emma Rees	Mark Lewis
Teresa Humphreys	Hannah Davies
Catrin Thomas	Awen Penri

Y TIM CYNHYRCHU

Mari Elin
Rwth Ellis Owen
Bethan Ellis Owen
Llio Penri
Catrin Jones

* - * - * - * - *

9.00 CWMNI'R BONT yn cyflwyno

YR HEN SGWLYN

Ydych chi wedi 'laru ar y cwricwlwm?

Ydy'r ffeils yn cwrdd a chi wrth y drws?

Ydyn nhw A.E.M> (Anfarwol Ellyllon Major) wedi tywyllu eich bywyd bach chi?

Ar ba lefel ydych chi?

Dewch i asesu'r sefyllfa gyda Chwmni'r Bont.

Y CAST

Yr un hen rai unwaith 'to.

Nos Iau
7.00 CWMNI YSGOL GYFUN CWM RHYMNI yn cyflwyno

"GREASE"

Sioe gerdd sy'n dwyn oes aur 'roc a rôl' i gof yw "Grease". Mae'r sioe yn dilyn hynt a helynt criw o ffrindiau wrth iddynt wynebu problemau llencyndod yn y 50'au hwyr. Yr hyn sy'n gwneud y cynhyrchiad hwn yn un arbennig yw'r ffaith fod y cyfan wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg. Ar gyfer Gŵyl Ddrama Tafod Elái rydym wedi dethol golygfeydd allan o'r cyfanwaith a lwyfanwyd y mis diwethaf yn Neuadd y Gweithwyr, Bedwas.

Y CAST

Yn nhrefn ymddangosiad

Miss Lynch	Elin Claridge
Patty Simcox	Emma Jane Davies
Eugene Florczyk	Michael Aveyard
Jan	Sian Phillips
Marty	Sara Scourfield
Rizzo	Catrin Powell
Doody	Llywelyn Morgan
Roger	Dyfrig Morris
Kenickie	Huw Jones
Sonny La tierri	Gareth Edwards
Frenchy	Eleri Thomas
Sandy Dumbrowski	Sara Davies
Danny Zuko	Gwyn Thomas
Vince Fontaine	Thomas Nicholas
Johnny Casino	Gethin Mills
Cha-Cha diGregorio	Carys Brown
Teen Angel	Alun Shurmer

Llais ar y radio — Mr Hywel Price

Corws

Rachel Kirkby, Nia-Wyn Kilminster, Alun Teagle, Heather Saunders, Eleri Thomas, Sian Williams, Tracy Smart, Nerys White, Michelle Evans, Edward Thomas, Sarah Muller, Bethan Llewellyn, Nia Williams, Lowri Pugh, Sarah-Jane Walkley, Susan Pitten, Sara Brittain, Wayne Beecham, Kirsty Pritchard, Rhian Wyn Jones, Kate Evans.

8.00 CWMNI CWM NI yn cyflwyno

"Y PRACTIS"
gan Leyshon Williams

Ffurfiwyd Cwmni Cwm Ni yn sgîl Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus Cwm Rhymni 1990 a "Y Practis" yw ein menter gyntaf.

Yn dilyn ein perfformiad agoriadol yng Nghanolfan y Celfyddydau ym Medwas rydym yn bwriadu mynd â'r ffars boblogaidd hon ar daith a'i pherfformio o flaen nifer o Gymdeithasau Cymraeg y Cymoedd.

Mae'r Cwmni'n cwrdd bob nos Fercher, yng Nghanolfan Bedwas, rhwng 7.30 a 9.00 o'r gloch. Mae croeso cynnes i unrhyw un sydd am ymuno â'r criw a gafodd cymaint o fwynhad yn ystod ein tymor cyntaf. Yn ogystal â'r rhai sy'n fodlon actio mae llu o dasgau'n aros y rhai sydd am weithio'r tu ôl i'r llenni.

Does dim angen profiad na hyfforddiant - dim ond brwdfrydedd! Beth amdani felly?
Cysylltwch â'r isod neu unrhyw aelod o'r cwmni:-

Cadeirydd - Ben Jones (862428)
Ysgrifennydd - Non Brooks (863139)
Trysorydd - Karen Evans (866024)

Perfformiwyd ffars boblogaidd Leyshon Williams gannoedd o weithiau mae'n rhaid, ers ei hymddangosiad cyntaf ym 1945.

Wedi i ni, yn Gwmni newydd sbon, ddarllen sgriptiau dibendraw, allen ni ddim dod o hyd i unrhyw beth a fyddai'n fwy addas ar ein cyfer na'r ffars adnabyddus hon. Serch hynny nid gwaith hawdd yw llwyfannu unrhyw ffars gyda'r galw am ddeialog slic ac amseru cywir.

Yr hyn a'i gwnaeth yn arbennig o briodol ar gyfer cwmni newydd dibrofiad oedd ymdrechion y cwmni dychmygol i gynhyrchu drama. Roedd yr anhawsterau a'u hwynebodd yn union yr un â'r rhai a wynebwyd ym Medwas yn ystod Gaeaf a Gwanwyn 1991. Doedd neb, cofiwch, mor dwp â llefaru'r "Stage Directions" a daeth neb ar ein traws i diwnio'r piano. Heblaw am hynny mae'r gweddill yn od o gyfarwydd .....

Y CAST

Yn nhrefn eu camgymeriadau

Jemima	Mary Jones
Winni (Marged)	Non Brooks
Mari (Elizabeth Prydderch)	Sarah Williams
Wiliam Tomos	Ben Jones
Bet	Karen Evans
Harriet	Bethan Roberts
Dic Huws	Denzil John
Gwen	Rita Jones
Mrs Dic Huws	Judith James
Y Dyn a'r Bag	Geraint Richards

matinée
ffilmiau
cyfarchion

ARCH PRESS LIMITED
COMMERCIAL PRINTERS

ffilmiau
ELIDIR

Nos Wener
7.00 YSGOL GYFUN Y CYMER yn cyflwyno

"STREIC"

Ffurfiwyd y Cwmni yn arbennig ar gyfer Eisteddfod Taf Elái eleni. Mae mwyafrif y cast yn nosbarth 4, neu Blwyddyn 10 erbyn hyn, a nifer ohonynt wedi bod yn aelodau o gast "Nia Ben Aur", Y Grisial Wen" ac un yn "Cwlwm". Ar hyn o bryd mae nifer ohonynt yn paratoi ar gyfer perfformiad Nadolig - "Joseff". Mae nifer yn astudio drama fel pwnc T.G.A.U. Mae'r ddrama ei hun yn delio â Streic y Glowyr, a'r effaith gafodd y Streic ar berthynas dau ffrind a'u teuluoedd. Ysgrifennwyd y ddrama nôl ym mis Ionawr gan Nerys Wyn Davies am ei bod hi'n teimlo yr angen i lwyfannu drama a fyddai yn berthnasol i'r plant, a gweld y Streic o safbwynt yr ifanc. Y rhwyg o ganlyniad i Streic a welir yma gan wneud cymhariaeth â Streic 1926.

Y CAST

Aaron Forth	Rhydian Phillips
Louisa Evans	James Clemas
Meinir Harries	Helen Hallam
Hywel Armstrong	Rhys Jenkins
Rhys Griffiths	Robert Warren
Scott Hughes	Paul Harries
Mathew Thomas	Rhianydd Toomey
Gavin Webb	Gemma Kilmington
Gareth Jones	Annaline Stone
Rhiannon Morgan	Laura Evans
Claire Davies	Simon Padfield
Ceinwen Tamplin	Gareth Williams
Rachel Hopkins	Rhian Thomas
Angharad Rees	

8.00 CWMNI TALIHO yn cyflwyno

"HOLLTI BLEW"

Myfyrwyr drama lefel "A" yn y chweched isa yn Ysgol Gyfun Glan Taf yw Cwmni Taliho. Maent yn griw "bywiog" ac ymysg eu diddordebau mae'r Celtiaid, Sgio, Dawnsio, mynd allan i fwynhau ac mae'r merched wedi cynnwys "Bechgyn" ar y rhestr yma! Maent hefyd yn weithgar ym myd perfformio ac mae ganddynt brofiad o actio llwyfan yn yr ysgol a chyda Chwmni Theatr Ieuenctid Cymru. Maent hefyd wedi cymryd rhan mewn ambell i ddrama neu raglen deledu. Heno byddant yn perfformio "Hollti Blew" sef cyfieithiad T James Jones o "A Resounding Tinkle" gan N F Simpson.

Y CAST

"A play for voices" dyna oedd nod Dylan Thomas a dyna nod y cwmni wrth lwyfannu'r ddrama. Ceisiwyd canolbwyntio ar y geiriau a'r cymeriadau sy'n datblygu trwy hynny gan gadw'r set a'r symudiadau i'r lleiafrif. Yn ami newid het neu ddilledyn yw'r unig beth sy'n dynodi cymeriad newydd.
Gwirfoddolwyr o flwyddyn 9 i 13 yw'r cwmni a nifer ohonynt yn perfformio am y tro cyntaf. Ar ben hynny y mae nifer ohonynt yn gorfod ymdopi â chwarae mwy nag un rhan. Y disgyblion sydd yn gyfrifol am y cyfarwyddo hefyd-profiad newydd i'r disgyblion ac i'r athrawon !!!

7 : 45 Nos Fercher 23 Tachwedd

Cwmni Ysgol Gyfun Glantaf yn cyflwyno

'NI'N DWY' gan Nan Lewis

Cast

Mair	:	Lisa Davies
Sara	:	Hannah Evans
Ann Morgan	:	Bethan Davies

Cyfarwyddwr : Rowan Watson-Wood

Cefn Llwyfan : Mathonwy Reeves

Cywaith Blwyddyn 12 (Drama lefel 'A')

8 : 45 Nos Fercher 23 Tachwedd

Cwmni Ysgol Gyfun Y Cymer yn cyflwyno

'GODSPELL'

Cewch weld nifer o olygfeydd allan o'r stoc *Godspell* a lwyfannwyd yn Ysgol y Cymer ar ddechrau mis Tachwedd eleni. Roedd tua 70 yn y cynhyrchiad hwnnw ond heno cewch weld 9 o actorion wrthi.

Cast

Rhydian Phillips	Angharad Rees
Rhys Davies	Rhian Thomas
Kathryn Williams	Richard Phillips
Sarah Davies	Daniel Davies
Carla Bartlett	

9 : 30 Nos Fercher 23 Tachwedd

Cwmni Ysgol Feistri Llanhari'n cyflwyno

'Y PRACTIS... O ryw fath !'

Cast

Nifer trychinebus o unigolion un ai'n rhy ddi-dalent neu'n rhy ddiog i ddysgu eu geiriau.

Cyfarwyddo : Pa gyfarwyddo ?

Ymdrech criw o athrawon ifanc (eu hysbryd !) i roi drama (o ryw fath) at ei gilydd er mwyn cael hwyl a chymdeithasu - a lwyddasant ?!

TANYSGRIFIAD BLWYDDYN
= £2.50

i sicrhau fod eich papur bro

TAFOD ELÁI

yn cael dathlu'i benblwydd

yn 10 oed mis Medi nesaf.

7 : 00 Nos Iau 24 Tachwedd

Cwmni Ysgol Gyfun Rhydfelen yn cyflwyno

'FFERM YR ANIFEILIAID' - Addasiad o nofel George Orwell.

Cast

Plant blwyddyn 7 - 10 yr adran.

Mae anifeiliaid Fferm yr Hafod yn anhapus. Maent yn cynllunio gwrthryfel i greu byd newydd. Ond beth fydd canlyniadau eu gweithred? Fydd y breuddwyd yn parhau?

8 : 00 Nos Iau 24 Tachwedd

Cwmni'r Dwrlyn MR yn cyflwyno

'HELYNT Y BUARTH' gan Gwion a Meinir Lynch

Cast

Bob (ffarmwr)	:	Emlyn Davies
Martha (ei wraig)	:	Nia Williams
Twm (y gwas)	:	Gareth Huws
Doctor Edwina	:	Carol Williams
Samantha (mam ddirprwyol)	:	Nerys Snowball
Blodwen (dynes o'r A.I)	:	Sheila Dafis

Cofweinydd : Judith Evans

Cynhyrchydd : Margaret Roberts

Mae aelodau'r cwmni hwn yn cynrychioli Clwb y Dwrlyn - yn wir mae nhw'n un o'r ddau gwmni o'r Clwb sy'n cystadlu eleni.
Digwydd y ddrama ar aelwyd Bob a Martha. Mae'r ddau wedi ei gadael hi braidd yn hwyr i gychwyn teulu a rhaid dechrau meddwl am ddulliau reit fodern, os nad chwyldroadol, i sicrhau etifedd!

(Dymunwn ddiolch i bawb fu'n helpu'r cynhyrchiad, yn arbennig Aled Llyr fu'n casglu offer ar ein cyfer, ond sy'n gorfod gweithio heno)

9 : 00 Nos Iau 24 Tachwedd

Cwmni Cymdeithas Gymraeg Llanrisant yn cyflwyno

'GWELL HWYR NA HWYRACH'

Cast

Meima Morse
Elin Morse
Howard Morse
Alan Pickard
Eleri Roberts

Mae parti priodas yn gyfle arbennig i ddwy hen ferch ddod o hyd i'r gŵr deilfrydol ... gwell hwyr na hwyrach !!!!

Noddwyr yr Ŵyl
Diolch nu eu cymorth

ELUDIR

DERWEN

CAMBRENSIS

Ffric

7 : 00 Nos Wener 25 Tachwedd

Cwmni Ysgol Gyfun Rhydfelen yn cyflwyno

'YSCOL' addasiad o ddrama John Godber "Teechers"

Cast *disgyblion Blynyddyn 12*

Owen Williams
Nerys Nicholls
Stuart Corbett
Steff Bevan
Iwan England

Pump disgybl yn perfformio drama ar ddiwrnod olaf y tymor. Gwelwn Ysgol y Cwm ar ei gorau? Y dagrau, y chwerthin a'r cwmpo más.

8 : 00 Nos Wener 25 Tachwedd

Cwmni Chweched Dosbarth Llanhari'n cyflwyno

'HICORI, DICORI, DOC' Sgript wreiddiol gan griw brwdfrydig o flwyddyn 12 Ysgol Gyfun Llanhari.

Cast

Hicori -	Mathew Deardon	Dicori -	Rebecca Adamson
Doc -	Owen Simons	Sali Swil -	Luisa Martin
Carwyn Cas -	Rwth E Owen	Joe -	Joanna Hilton
Moe -	Carys Hewitt	Rob -	Alun Gapper
Bob -	Gareth Mahoney	Wil -	Allyson Hopkins
Phil -	Emma Bevan	Tracy Tarten -	Sara Davies
Llinos Llygoden -	Heather Payne	Mrs. Carys Caredig -	Kath Williams
Torion Tew -	Simon Philpin	Mam -	Chris Lloyd
Merch -	Rebecca Adamson		

Corws

Bethan Gibson	Neil Richardson	Sarah James
Richard Williams	Nerys Davison	Gareth Battrick
Julia Slade	Owen Simons	Rhian Thomas
Donny Hayes	Louise Harry	Iestyn Roberts
Bethan Willis	Gareth Israel	Sarah Wood
Andrew Minton	Claire Ellis	Andrea Jones
Janine O'Sullivan		

Cyfarwyddo : Catrin Rees

Cerddoriaeth : Lowri Davies

Cadw trefn : Miss Jones

Y mae gan Mrs Carys Caredig gloc ac yn y cloc hwn y mae Hicori, Dicori a Doc yn byw. Mae gan Hicori gariad o'r enw Sali Swil ac mae Llinos Llygoden wedi cwympo mewn cariad gyda Doc.
Ond nid dyma'r problemau ..... O na! Dydi pob llygoden ddim yn ciwt a hoffus - mae rhai yn fawr, peryglus a thwp!
Cymrwch ofal - cfallai eu bod y tu ôl i chi!

Rolerdisgo Gig "Serian"
In Nosson Yr Teulu Llantrisant 5.45 - 10.15

Nos Sadwrn 3 Rhagfyr 1994
5.45 - 10.15
CANOLFAN HAMBDEN
LLANTRISANT

Cwmni Mega yn Cyflwyno

BRANWEN

y Panto

Gyda

BRANWEN - PANTO NEWYDD YN Y MIWNI, PONTYPRIDD.

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Culhwch ac Olwen yn Theatr y Miwni yn Mhontypridd eleni bydd cyfle i weddill Cymru i'w weld ar daith y gaeaf yma. I blant de-ddwyrain Cymru daw y cyfle i weld pantomeim newydd sbon gan yr un cwmni - BRANWEN gan Eiry Palfrey, Sue Roderick a Peter Williams - Cyfarwyddwr Dafydd Hywel.

Mae'r panto eleni eto wedi ei seilio ar un o chwedlau enwocaf y Mabinogion - cud er fod diwedd trist i'r stori wreiddiol, mae'r panto'n diweddu'n hapus i bawb - ar wahan i'r dyn drwg wrth gwrs!
Mae Branwen yn priodi y canwr pop enwog o Iwerddon - Mat O'Lwch, ond mae Efnysien ei hanner brawd cenfigenus yn fandaleiddio ei fotobeic. I uneudd yn iawn am hyn mae Bendibigbol y cawr - brawd Branwen yn rhoi anrheg o bair hudol i Mat. Pair sy'n rhoi dwy droed ddo i unrhyw un sy'n rhoi ei draed ynddol - a phan fydd na gem pel droed tua diwedd y panto mae'n amlwg pwy sy'n mynd i ennill! Mae digon o ganu a dawnsio - a gwyliwch y Sdrubwy - wyddwch chi ddim ble fydd hi'n troi lan nesa!

Gyda cast yn cynnwys Dawi Pws fel Muriel y 'Dame' a Llion Williams (George yn C'mon Midffild) fel Efnysien dyma gyfle gwych i chi fwynhau

HUD • LLEDRITH • BEWYDRO • CARIAD • CENFIGEN • PWER • RHAMANT • DAWNS A CHAN

Bydd y panto yn y Miwni yn Mhontypridd o Ionawr 9fed hyd Ionawr 28ain, 1995. A ffdduch cystal a chyfyllitu a ni cyn gynted ag sy'n bosib gyda eich archebion am docynnau drwy ffonio ein swyddfa yng Nghaerdydd (022) 611515.
Bydd tocyn plentyn yn £4.00 ag oedolyn yn £5.50 (cofiwch fod athrawon sy'n gofalu am y plant yn cael tocyn braint).

Gallwch hefyd archebu tocynnau drwy lenwi y ffurflen isod.
Byddem yn dra ddiolchgar os y byddech yn archebu mor fuan a phosib i sicrhau eich seddau.

NI FYDD PERFFORMAID O BANTOMEIM PROFFESIYNOL CYMRAEG ARALL YN ARDAL CAERDYDD.



GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdre

AMSER	Nos Fawrth 21.11.95	Nos Fercher 22.11.95	Nos Iau 23.11.95	Nos Wener 24.11.95
7.00	Ysgol Cwm Rhymni	Cwmni Bronllwyn	Cwmni Ysgol Gwynllyw	Menter Taf Elái
		Cwmni Pwy? Giantaf		Panto Ysgol Llanhari
8.00	Cwmni'r Dwrlyn A	Cwmni Cwm Ni	Cwmni AYYB Ton	
9.00	Cwmni Ysgol Llanhari	Cwmni'r Dwrlyn B	Noson Lawen y Dwrlyn	Athrawon Llanhari
				Beirniadaeth a chyflwyno tlysau.

Cyfeilydd yr Wyl - Carey Williams

ARLWYO : Cylch Meithrin Llanilltud Faerdre; Cynllun Gofal Y Creigiau; Cylch Meithrin Tonteg; Pwyllgor Cymraeg i Oedolion Taf Elái

Gair o Groeso

I longyfarchiadau gwresog i fuddgwyr yr Ŵyl Gerdd Dant. Bythefnos yn ddiweddarach dyma alw ar yr un talentau a'r un cymwynaswyr i gefnogi Gwyl Ddrama Tafod Elái yn ddeng mlwydd oed.

Mae'r Ŵyl yn croesawu cynhyrchydd newydd - Catrin Mai Jones (Ysgol Gyfun Cwm Rhymni) a da gweld fod dau gwmni'n cystadlu o dan nawdd Menter Taf Elái. Rhaid hefyd cyfeirio at y Catrin arall honno - yr un sydd wedi gwneud mwy na neb i gynnal yr ŵyl. Eleni mae'n gysylltiedig â thri chynhyrchiad. Miss Jones, Llanhari yw ei henw yn ystod y dydd ond nid "Llanhari" cyn hir. Ar ran yr ŵyl ga' i ei llongyfarch ar ei phenodiad yn Bennaeth Adran Ddrama Ysgol y Creuddyn. Tybed a ddaw 'na cwmni'r holl ffordd o'r gogledd y flwyddyn nesaf? Pob dymuniad da Catrin a diolch am ymuno yn yr ŵyl eto 'leni.

Braf yw croesawu dau gwmni newydd sef Cwmni Ysgol Gyfun Gwynllyw a Chwmni AYYB Ton. I ddechrau'r noson ar Nos Fercher bydd pefformiad arbennig gan gwmni newydd sbon danlli, ysgol fach y Bronllwyn. Prifathrawes a chynhyrchydd y cwmni bach hwn yw Mrs J R Morse - Meima i chi a fi. Bu'n fwriad ganddi i gystadlu eleni. Wedi'r cyfan hi a'i chast yw deiliaid Tlws Drama Oedolion ar ôl perfformiad ysgubol y llynedd. Fel y gwyr pawb trwy Gymru bellach, bu farw ei mam yn ddiweddar.Estynnwn i gyd ein cydymdeimlad â hi a'r teulu yn eu profedigaeth.

Felly mae 'na 13 cyflwyniad amrywiol iawn yn eich aros. Bydd yr egwyl rhwng y perfformiadau yn gyfle i siopa 'Dolig yn y stondinau yn y cefn ac yn siawns am sgwrs a phaned.

Diolch i'r arlwywyr eto eleni. Diolch i'r noddwyr. Heb eu haelioni hwy ni fyddai'n bosibl i wynebu'r costau cynyddol. Diolch i'r cwmnïau am eu cefnogaeth ac i chithau'r gynulleidfa. Hebddoch, fe fyddai'n wythnos fflat a gwag iawn.

Yn olaf, llongyfarchiadau i'r Tafod ar ei benblwydd yn ddeg oed.

HEDDYR GREGORY

"Well i ni'i bachu hi cyn iddi'n gadael ni" Dyma dd'wedodd un aelod o fwrdd golygyddol y Tafod pan ddaeth hi'n amser meddwl am feirniad ar yr Ŵyl Ddrama. Ydy mae Heddyr, Keith ei gŵr, Ifan y crwt mawr a'r newydd ddyfodia(i)d yn ein gadael a symud i sir Gâr bell.

Llongyfarchiadau i Keith ar ei benodiad yn Gyfarwyddwr Addysg Caerfyrddin a phob dymuniad da i'r teulu pan ddaw hi'n amser mudo. Rhaid gwerthu a phrynu tŷ gyntaf wrth gwrs - wedi meddwl, 'falle y bydd hi yma i feirniadu ugeinfed penblwydd yr ŵyl.

O Frynaman y daw Heddyr yn enedigol - ie, un arall ohonyn nhw! Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Ystalyfera cyn symud i Aber i astudio'r Gymraeg a Drama. Bu'n athrawes yn Ysgol Gyfun Gŵyr am flwyddyn cyn cael ei phenodi'n bennaeth yr Adran Ddrama yno.

Daeth atynfa gref i symud eto, i'r dwyrain y tro hwn, i Forgannwg Ganol. Fe'i penodwyd yn athrawes ymgynghorol drama yn y sir. Priododd a dechreuodd fagu teulu yn ogystal â dal at ei swydd yn rhan amser. Mae'n aelod o Gwmni Drama'r Gadwyn.

Dyw hi ddim syndod nad oes ganddi lawer o amser i ddiddordebau eraill ar ôl hynna i gyd ond mae ganddi *penchant* (fel y bydd thespiaid Pentyrch yn ei ddweud) am gyri go boeth.

Rydym yn hynod falch o'i bachu. Wn i ddim am gyri poeth, 'falle ar ôl traddodi'r feirniadaeth nos Wener, ond gwn y bydd 'na awyrgylch gynnes iawn yn dy ddisgwyl Heddyr (Ifan a Keith).

Lluniaeth ysgafn ar gael

Diolch i'w Noddwyr

7 : 00 Nos Fawrth 21 Tachwedd

Cwmni Drama Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cyflwyno'r ddrama

'Y FAMDDELW' - cyfieithiad Emyr Edwards o "Motherfigure" gan Alan Ayckbourne.

Cadwyn o bum drama gan Ayckbourne yw "PUM PICIL" ('Confusions'). "Y FAMDDELW" yw'r ddrama gyntaf yn y gadwyn. Unigrwydd yw'r thema sy'n cysylltu'r dramodigau yma ac yn ein drama ni gwelir unigrwydd ym mywyd mam ifanc.

Tri disgybl sydd newydd ddechrau astudio Drama fel pwnc T.G.A.U ym mlwyddyn 10 yw aelodau'r cast -

Chwaraewyr :

Lucy	-	CARYS WYNNE JONES
Rosemary	-	LYNWEN DE LA TASTE
Terry	-	DAMIEN JONES
Cefn llwyfan	-	ALED JOHN
Cyfarwyddwr	-	CATRIN MAI JONES
		Pennaeth yr Adran Ddrama

Cyngor Bwrdeisdref Taf-Elái

8:00 Nos Fawrth 21 Tachwedd

Cwmni'r Dwrlyn A yn cyflwyno -

'COLLI JOHN ALBERT - Comedi mewn un act gan Rhiannon Parry

Nid yw'r newydd a dderbyniodd Gwladys am ei phriod yn un arbennig o dda ond mae'n syndod fel y gall cyfeillion eich cysuro! Os oes moeswers, yna efallai y dylem osgoi mynd i nofio mewn jersi frown wlân, yn enwedig yn Awstralia!

Chwaraewyr:

Plismones	-	Nia Williams
Gwladys	-	Margaret Roberts
Mildred	-	Nerys Snowball
Mair	-	Sheila Dafis
Jane	-	Carol Williams

Cofweinydd	-	Judith Evans
Cefn Llwyfan	-	Aled Llŷr
Cynhyrchydd	-	Margaret Roberts

ELEDIR

) : 00 Nos Fawrth 21 Tachwedd

Cwmni Drama Ysgol Gyfun Llanhari'n cyflwyno -

'FORY'

Addasiad o ddrama wreiddiol Tony Marchant "Raspberry"

Drama gyfoes sy'n ymdrin â beichiogrwydd, erthyliad a'r holl broblemau sydd ynghlwn â'r ddau bwnc emosiynol yna. Dilynwn hanes dwy fenyw yn flisgwyl triniaeth meddygol gwahanol iawn, a gwelwn ddatblygiad a chryfder cyfeillgarwch drwy hyn oll.

Chwaraewyr :

Chris - Angharad Devonald
Eileen - Elen Robert

D.S. Rhybudd

Mae peth o'r iaith / cynnwys yn unaddas i blant.

£ 2.50 am danysgrifiad blwyddyn i sicrhau ei ddyfodol.

7 : 00 Nos Fercher 22 Tachwedd

Cwmni Ysgol Fach y Bronllwyn yn cyflwyno -

'BECA'

Menter gyntaf yr ysgol ifanc hon i fyd y ddrama yw'r cynhyrchiad byr hwn. Ceir cipolwg ar fywyd anturus Beca.

Chwaraewyr :

Rhy niferus i'w henwi ond digon yw dweud fod John Major a Margaret Thatcher yn eu plith.

7 : 30 Nos Fercher 22 Tachwedd

Cwmni Pwy, Ysgol Gyfun Glantaf yn cyflwyno -

'ANNWYL NEB'

Ffrwyth llafur disgyblion blwyddyn 12 yw'r cyfanwaith hwn sef cyfres o olygfeydd sy'n ymdrin â phroblemau ieuenctid cyfoes. Cyfrannodd pob aelod o'r grŵp at y gwaith sgriptio ac fel tîm yr aethant ati i gynhyrchu'r cyflwyniad.

Aelodau'r tîm yw :

Lucy Evans
Dafydd James
Charlotte Stock
Angharad Williams
Dewi Harris
Lisa Davies
Nicola Powell

Diolch i'n Noddwyr

Cofweinydd - Rhys Beynon

'8 : 00 Nos Fercher 22 Tachwedd

'Cwmni Cwm Ni'n cyflwyno -

'GARDDWEST GOSFORTH'

Hanner y cwmni sy'n perfformio "Garddwest Gosforth" ar gyfer yr Wyl hon. Bu'r gweddill yn perfformio "Tamaid i Aros Pryd", un arall o "Brithdraphlith" neu "Bum Picil" Alan Ayckbourne. Cyflwynwyd y rhaglen o ddwy ddrama i gynulleidfaoedd ym Margod, Casnewydd, Treorci a Bedwas yn gynharach eleni.

Ffars wedi'i selio ar arddwest gwbwl Seisnigaidd yn mynd yn gyfangwbl o le sydd yma. Rhwng y trydan, y Scout Master meddw, y tywydd a'r Wolf Cubs does dim byd yn mynd yn iawn .....

Chwaraewyr :

Milly	-	Helen Morgans
Cynghorydd Mrs Pearce	-	Rita Jones
Gordon Gosforth	-	Ben Jones
Joanna Braithwaite	-	Judith James
Stuart Stokes	-	Denzil John
Cynhyrchydd	-	Allan Cook
Goleuadau	-	Peter Davies
Set	-	Fred Brooks
Cofweinydd	-	Non Brooks

Cyngor Bwrdeisdref Taf-Elái

DERWEN

9 : 00 Nos Fercher 22 Tachwedd

Cwmni'r Dwrlyn B yn cyflwyno -

'DIWRNOD I'R BECAR' - ychydig o wamalu mewn un act.

Premiere drama newydd gan y dramodydd toreithiog, Ifan Roberts.

Mae hi'n haf, mae hi'n braf ac y mae Trefor a Wendi wedi gosod eu pabell mewn llecyn hyfryd yn Ffrainc - er y byddai'n well gan Tref dreulio ei wythnos yn yr Eisteddfod. Ond pwy yw'r ddau ryfedd sydd drws nesaf? Beth yw cyfrinach y croen arth?

Chwaraewyr:

Trefor	-	Emlyn Davies
Wendi	-	Ann Davies
Morus	-	Wyn Rees
Siw	-	Eleri Jones
Tu ôl i'r llenni	-	Ioan Rhys Davies
		Catrin Roberts
		Aled Llyr
		Ifan Roberts

Dymuna'r Cwmni ddiolch i :
OBI Camping Centre, Y Bontfaen
am fenthyg offer ar gyfer y cynhyrchiad

C A M B R E N S I S

7 : 00 Nos Iau 23 Tachwedd

Cwmni Ysgol Gyfun Gwynllyw'n cyflwyno -

'DAN Y WENALLT'

Cyflwyniad o ddetholiad o ddrama Dylan Thomas 'DAN Y WENALLT' yw cyflwyniad Ysgol Gyfun Gwynllyw. Dewiswyd ambell i sefyllfa a golygfa i ddangos y berthynas rhwng cymeriadau pentref Llaregyb â'i gilydd.

Chwaraewyr -

Betsan Criddle
Geraint Criddle
Huw Edwards
Bettrys Jones
Shêmi Jones
Carys Wynne

Dyma'r tro cyntaf i'r Ysgol berfformio yn yr Ŵyl.
Disgyblion o flynyddoedd 10 a 12 sydd yma.

8: 00 Nos Iau 23 Tachwedd

Cwmni AYYB Ton yn cyflwyno -

'AR Y TIR' - Drama newydd gan Angharad Devonald

Ers canrifoedd bellach, oherwydd y pla gwyrdd ysgubodd ar hyd wyneb y ddaear, mae'r Cymry wedi bod yn byw yn ddiogel o dan y ddaear, ac wedi ail sefydlu sustem Frenhinol o'r newydd. Mae'r ofn a halodd pawb dan ddaear yn y lle cyntaf yn dal i fod, am resymau gwahanol, ac mae gan un criw o Gymry ifanc freuddwyd o gael byw AR Y TIR.

Chwaraewyr :

Fflam	-	Rhian Westbrook
Meurig (y Tywysog)	-	Mathew Jones
Gwyneth (y Frenhines)	-	Janine Jones
Sioned	-	Danielle Doak
Illtud	-	Mathew Pope
Ceri	-	Rhian Foulkes
Iola	-	Angharad Granger
Twm Bach	-	Carwyn Griffiths
Milwyr	-	Emma Davies, Delyth Owens, Ceri Pugh

9 : 00 Nos Iau 23 Tachwedd

Noson Lawen - *'TOP TIP'*

Yn ôl Llion Williams, "gwreiddiol a chwbwl wallgo" oedd cynhyrchiad y llynedd,rhywbeth "bizarre" iawn oedd yr holl beth - Monty Python yn cyrraedd Taf Elái ..... adloniant anarchaidd ... ac fe dorrwyd pob rheol."

Beth sy'n eich disgwyl eleni tybed ? Mae 'na hen wynebau, rhai'n hen iawn, a rhai newydd yn barod i geisio'ch diddanu.

Gan fod cwrdd i ymarfer yn groes i gyfansoddiad y cwmni hwn mae'r aelodau'n reit awyddus i weld beth fydd yn digwydd hefyd.

Y rhai sy wedi addo gwneud rhywbeth :
Byron, Enid, Brian, Arwel, Rhys, Sheila, Ann Dwynwen, Emlyn, Ann, Tania, Carol, Nerys, Ken, Marged, Ifan, Meira, Sylvia, Eleri, Judith ...

Ymgynghorydd technegol - Robin Gruffydd

Cynhyrchydd, a'r weledigaeth wreiddiol - Wynford Ellis Owen

7 : 00 Nos Wener 24 Tachwedd

Gweithdy Drama Menter Taf Elái yn perfformio -

'AGI AGI AGI!'

Drama am rygbi, felly .....
Ymunwch yn yr hwyl wrth i Tomi Mawr goncro calonnau! Ymunwch yn y bloeddio wrth i'w dim goncro'r Gogs!

Y Tim :

Hywel Roberts
Osian Sion
Iestyn Morgan
Gethin White
Mared Swain
Glesni Roberts
Emma Prosser
Sarah Osborne
Delyth Morgan
Elinor Hughes
Rachel Burgess
Helen Marks
Rhian Mahoney
Aled Davies
Meilyr Hedd
Rhys Jones
Andrew Prosser
Sian John
Carys Jones
Rhian Cecil
Angharad Morgan
Kathryn Osborne
Rebecca Watkins
Llinos Jones
Sian Thomas
Gemma Jones

Hyfforddwraig : Catrin Jones

? *Faint yw gwerth y Tafod i chi?* ?

8 : 00 Nos Wener 24 Tachwedd

Pantomeim Blwyddyn 12 Ysgol Gyfun Llanhari'n Cyflwyno -

'Y PANTO!'

Unwaith eto mae criw talentog a brwdfrydig chweched dosbarth Llanhari yn ôl i berfformio campwaith dramatig arall!

Eleni cawn glywed helyntion helbulus trigolion teyrnas tanddwr a'u ffrindiau o syrffwyr. Beth fydd yn digwydd i Meriel a Sam! A fydd eu cariad yn ddigon cryf i oresgyn creulondeb a llygredd Olif Olew? Beth fydd yn digwydd i gof Petra? A ddaw Cranc a Cfanc dros y nam ar eu lleferydd? Pwy a wyr?

Eisteddwch yn ôl a mwynhewch yr hwyl a'r jôc, ond peidiwch â disgwyl unrhyw brofiadau dwys theatrig!

Trychinebau Tanddwr Trigolion Teyrnas ..... Morwena!
(Neu o Dan y Môr)

Chwaraewyr :

Sam -	Trystan Jones	Brad -	Edryd Jones
Matt -	Huw Jones	Meriel -	Elin Phillips
Menna -	Amy Ryan	Mari -	Eleri Knight
Cranc -	Awen Penri	Cfanc -	Elen Robert
Petra -	Angharad Devonald	Olif Olew -	Rhian Hicks
Oilet 1 -	Sarah Morgan	Oilet 2 -	Gwenllian Willis
Oilet 3 -	Ceri Wride	Oilet 4 -	Rebecca Howells
Oilet 5 -	Gemma Morgan	Brenin -	Gareth Lewis
Brenhines -	David Thomas	Dewin y Dyfroedd -	Tim Russell
Bimbo 1 -	Catrin Thomas	Bimbo 2 -	Sarah Rees
Dan Môr -	Mathew Morgan	Ceffyl Môr 1 -	Rebecca John
Ceffyl Môr 2 -	Helen Real	Octo -	Sioned Jones

Pysgod Jeli - Dona Trowbridge, Catrin Jones, Gemma Hughes, Elin Adams
Cerddoriaeth - Bethan Arwel & Band, Dawn Williams, Lucy Chivers
Criw Technegol - Unrhywun yn y Chweched yn fodlon helpu!

Diolchiadau - Pawb!

9 : 00 Nos Wener 24 Tachwedd

Cwmni Drama Staff Llanhari yn cyflwyno -

'SAIM AR DYBL SPÎD' **- (gydag ymddiheuriadau i Olivia a Travolta)**

Yr Actorion :
Unrhyw un oedd yn fodlon gwneud ffwl ohono'i hun. Dim enwau rhag ofn iddynt golli eu swyddi!

Cyfarwyddo :
Choelia i fawr! (Neb yn fodlon cymryd y bai!)

Stori : Gwan iawn !
Oeddech chi'n gwybod fod dwy gangen i deulu Llanhari?
Y TEIRW, sef y clwb criced llawn egos a'r HARIETS- clwb siopa Siaradus.

Wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf mae'r ysbryd yn isel ... ond mae dau mewn cariad.

A fydd y ddau yn parhau i ddod yn "hopelessly devoted" i'w gilydd? Ynte a fydd yr "hound dog" o ofalwr yn eu rhwystro?

Rhybudd :
Efallai na fydd yr actio hwn yn addas ar gyfer cynulleidfa waraidd!!!

£ 2.50 am danysgrifiad blwyddyn i sicrhau ei ddyfodol.

Blwyddyn	Beirniad	Tlws Ysgol (Drama Ysgol orau)	Tlws Ifan Wyn (Drama oedolion orau)	Cwpan T James Jones (Cwmni gorau'r Wyl)	Tlws Emyr Edwards (Actor(es) yr Wyl)	Tlws Panto (Agored)	Tlws Noson Laven (Agored)
1986	Dyfan Roberts		Y Fuwch Goch	----------	----------	----------	----------
1987	Huw Ceredig	Rhydfelen	Clwb y Bont	Cwmni Un Nos	----------	----------	----------
1988	John Hefin	Cwm Rhymni	Clwb y Bont	Cwm Rhymni	----------	----------	----------
1989	T James Jones	Cwm Rhymni	Clwb y Bont	Cwm Rhymni	----------	----------	----------
1990	Gwenlyn Parri	Llanhari	Y Fuwch Goch	Llanhari	----------	----------	----------
1991	Emyr Edwards	Cwm Rhymni	Clwb y Bont	Cwm Rhymni	Beth Angell	----------	----------
1992	Lis Miles	Rhydfelen	Cwmni '93	Llanhari	Leanne Hardman	Llanhari	Llantrisant
1993	Iola Gregory	Y Cymer	Y Dwrlyn	Llanhari	Bethan Ellis Owen	Llanhari	Y Dwrlyn
1994	Lion Williams	Y Cymer	Llantrisant	Llanhari	Owain Williams	Llanhari	Y Dwrlyn
1995	Heddyr Gregory	?	?	?	?	?	?

Dathlu penblwydd y papur yn flwydd oed oedd yr ysgogiad i sefydlu Gwyl Ddrama. Ydych chi'n cofio Dyfan yn feirniad 8 mlynedd yn ôl bellach? Yna daeth y cawr o Drelales aï sylwadau caredig diffuant. Pwy all anghofio urddas tawel John Hefin? Rhaid oedd gwahodd T James Jones yn feirniad ac yntau, ddwy flynedd ynghynt, wedi cyflwyno cwpan i'r Wyl. Mor ffodus oeddem i gael gwasanaeth Gwenlyn, cyn ei farwolaeth annhymig. Diolch i garedigrwydd Emyr Edwards mae ganddom dlws i gydnabod actor / actores yr Wyl. Enwau tair merch ifanc, talentau hynod, sydd amo hyd yma. Roedd hi hefyd yn bryd cael gwraig i feirniadu ac fe gawsom ddwy arbennig, Lis Miles a Iola Gregory - y naill fel y llall yn gwbl garrefol ac wedi eu synnu gan fwrlwm yr Wyl. Y llynedd llwyddodd Lion Williams i gydio yn nychymyg pawb ifanc ei ysbryd. Eleni estynnir croeso i Heddyr.

tafod elái

GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI '96

Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdre

AMSER	Nos Fawrth 26.11.96	Nos Fercher 27.11.96	Nos Iau 28.11.96	Nos Wener 29.11.96
'7.00	Ysgol Gwynllyw *"Perthyn"*	Ysgol Rhydywaun *"Seren Newydd"*	Ysgol Cwm Rhymni *"Hist! Mae'r Babi'n Cysgu"*	Ysgol y Cymer *"A Ddioddefws a Orfu"*
		Ysgol Glantaf *"Rhwng Pob Cegaid"*	Cwmni Gwen B *"Glywsoch Chi'r Un"*	
'8.00	Cwmni'r Dwrlyn W.E.O. *"Sêr yn Eu Llygaid"*	Panto Llanhari *"Pen Tost a Llond Bol"*	Ysgol Llanhari *"Rhai Pobol"*	Cwmni'r Dwrlyn E.R. *"Steil ar Ben Stôl"*
'9.00	Cwmni Gwen A *"Rhyw Ddyn Rhyw Ddynes"*	Cwmni'r Dwrlyn M.R. *"Dirgelwch y Caribian Ciwcymbar"*	Athrawon Llanhari *"Olwch a Chulwen"*	**Beirniadaeth a chyflwyno tlysau**

ARLWYO	Cylch Meithrin Llanilltud Faerdref	Cylch Meithrin Pentyrch	Cylch Meithrin Pentre'r Eglwys	Pwyllgor Cymraeg i Oedolion Menter Taf Elái

Golygydd Tafod Elái:- Penri Williams
Trefnydd:- Colin Williams
Cyfeilydd yr Ŵyl:- Carey Williams
Ffotograffydd:- D J Davies
Swyddogion y Drws:- David Knight/ Gill Rees

Beirniad - Caryl Parry Jones

26, 27, 28, 29 Tachwedd

11 fed

GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI 1996

Neuadd Dowlais
Llanilltud Faerdre

Rhaglen swyddogol - **£1.50**

Gair o Groeso

Dyma ni'n ôl ar ein pererindod flynyddol yn Neuadd Dowlais. Mae'r neuadd ar ei newydd wedd, wedi'i haddurno'n hyfryd a llenni yn ôl ar y llwyfan. Fe fydd yn wythnos glyd a'r awyrgylch mor gartrefol ag arfer.

Mor braf yw croesawu cynhyrchydd a chwmni newydd bob blwyddyn. Y llynedd Catrin Mai Jones, Cwm Rhymni oedd y *debutante* - da gweld ei bod wedi dychwelyd. Eleni, croesawn Nicola Meleri yn gynnes iawn, cynhyrchydd *Cwmni Gwen* gyda, nid un, ond dau gynhyrchiad. Mae fy niolch i'n bersonol yn fawr iddynt am fod mor hyblyg wrth drefnu'r amserlen.

Sgŵp arall eleni yw fod ein hysgol gyfun Gymraeg ddiweddaraf yn cymryd rhan. Ar ôl perfformio'n llwyddiannus yn Neuadd y Colisiwm yr wythnos ddiwethaf mae Ysgol Rhydywaun wedi addasu tipyn ar eu cynhyrchiad o *Seren Newydd* i ateb gofynion yr Ŵyl. Mae'n croeso ni yn dwyingalon i ddisgyblion lwcus yr ysgol â'r bensaerniaeth fwya' trawiadol yng Nghymru, ac i'w cynhyrchydd, Sioned Davies.

Mae 'na 13 cynhyrchiad i'ch difyrru - 8 cwmni drama ieuenctid, 3 chwmni drama oedolion, 1 pantomeim ac 1 parti noson lawen. Rhywbeth i bawb, gobeithio.

Y llynedd cafwyd gŵyl i'w chofio (gweler tudalen gefn am y canlyniadau). Cyflwynwyd tlws (arall!) gan Heddyr Gregory ar gyfer Ysgolion Cynradd ond nid oes neb wedi ymateb i'r her eleni. Beth amdani'r flwyddyn nesaf?

Diolch i Bwyllgor Neuadd Dowlais. Diolch i'r arlwywyr, y noddwyr, y stondinwyr, y cyfeilydd, y ffotograffydd, swyddogion y drws, y trysorydd a golygydd y Tafod. Diolch wrth gwrs i bob un o'r cwmnïau ond yn olaf diolch i chi'r gynulleidfa.

		(Drama orau)	(Drama oedolion orau)	(Cwmni gorau'r Wyl)	(Actor(es) yr Wyl)	(Agored)	(Agored)
1986	Dyfan Roberts		Y Fuwch Goch				
1987	Huw Ceredig	Rhydfelen	Clwb y Bont	Cwmni Un Nos			
1988	John Hefin	Cwm Rhymni	Clwb y Bont	Cwm Rhymni			
1989	T James Jones	Cwm Rhymni	Clwb y Bont	Cwm Rhymni			
1990	Gwenlyn Parri	Llanhari	Y Fuwch Goch	Llanhari			
1991	Emyr Edwards	Cwm Rhymni	Clwb y Bont	Cwm Rhymni	Beth Angell		
1992	Lis Miles	Rhydfelen	Cwmni '93	Llanhari	Leanne Hardman	Llanhari	Llantrisant
1993	Iola Gregory	Y Cymer	Y Dwrlyn	Llanhari	Bethan Ellis Owen	Llanhari	Y Dwrlyn
1994	Llion Williams	Y Cymer	Llantrisant	Llanhari	Owain Williams	Llanhari	Y Dwrlyn
1995	Heddyr Gregory	Menter Taf Elái	Dwrlyn B	Menter Taf Elái	Angharad Devonald	Llanhari	Y Dwrlyn
1996	Caryl Parry Jones	?	?	?	?	?	?

Dathlu penblwydd y papur yn flwydd oed oedd yr ysgogiad i sefydlu Gŵyl Ddrama. Ydych chi'n cofio Dyfan yn feirniad 11 mlynedd yn ôl bellach? Yna daeth y cawr o Drelales a'i sylwadau caredig diffuant. Pwy all anghofio urddas tawel John Hefin? Rhaid oedd gwahodd T James Jones yn feirniad ac yntau wedi cyflwyno cwpan i'r Ŵyl. Mor ffodus oeddem i gael gwasanaeth Gwenlyn, cyn ei farwolaeth annhymig. Diolch i garedigrwydd Emyr Edwards mae ganddom dlws i gydnabod actor / actores yr Ŵyl. Roedd hi hefyd yn bryd cael gwraig i feirniadu ac fe gawsom rai arbennig, Lis Miles, a Iola Gregory. Llwyddodd Llion Williams i gydio yn nychymyg pawb ifanc ei ysbryd. Diolch i Heddyr Gregory y llynedd, nid yn unig am ei phresenoldeb a thrylwyredd ei gwaith ond hefyd am gyflwyno TLWS CYNRADD i'r Ŵyl. Eleni estynnir croeso i **Caryl.**

YDYCH CHI'N COFIO?

CARYL

Mae'n arwydd sicr eich bod wedi cyrraedd pan fo cenedl gyfan yn eich 'nabod gerfydd eich enw bedydd. Ydy mae Caryl wedi hen gyrraedd pob cartref yn y Gymru gyfoes. Mae pawb am hawlio *siwperstar*. Mae'n dweud llawer am hoffter y cyhoedd ohoni fod pawb eisiau ei 'nabod. Mae wedi helpu i godi'r *feel good factor* Cymreig ris neu ddau.

Er ei llwyddiant, mae seren ddisgleiriaf Gwlad y Gân a'i thraed yn solet ar y ddaear - neu yn y pridd i fod yn fwy

manwl os ydych wedi'i chlywed ar raglenni megis *Dros Ben Llestri* neu *Bwlffacan.*

O Ffynnongroyw, Sir Fflint y daw'n enedigol. Cafodd ei haddysg gynnar yn ysgol Mornant cyn symud i Ysgol Glan Clwyd a Choleg y Brifysgol, Bangor. Yn feinwen yn ei harddegau roedd yn aelod o'r grŵp hwnnw a fedyddiwyd yn berffaith, SIDAN. Ar ddiwedd y saithdegau hi oedd yn ffryntio'r siwpergrwp INJAROC. Bydd llawer ohonoch yn ei chysylltu â blynyddoedd gwych ddechrau'r wythdegau pan fu BANDO yn y ffurfafen a'r albwm/fideo *Shampw* bythgofiadwy. Yn ddiweddar y mae wedi gwefreiddio cynulleidfaoedd gyda CARYL A'R BAND.

Mor aml-dalentog, profodd ei bod yn ddarlledwraig wrth reddf. On'd yw hi i weld yn mwynhau pob dim y mae'n wneud? Rhyfeddwn at raen y canu, y cymeriadu, a'r diddanu. Dechreuodd ar raglenni plant megis *Bilidowcar, Sêr, Ffalabalam,* a *Pili Pala.* Yn

Hapus Dyrfa hi yw ateb Cymru i Felicity Kendall. Cydnabyddwyd ei thalent enfawr drwy roddi iddi ei chyfresi ei hunan - CARYL, T.V. TEIFI, YNG NGHWMNI CARYL.

Ac fel petai'r uchod i gyd ddim yn ddigon, yn ogystal â'r llygaid hudolus, mae ganddi ymennydd miniog a hiwmor ffraeth fel y tystia'r sioeau a ysgrifennodd - *Y Dyn Nath Ddwyn y Dolig, Jac Tŷ Isha, Hapus Dyrfa, Y Ferch Drws Nesa* yn ogystal â 3 pantomeim. Mae hefyd yn gyfansoddwraig sydd wedi cyfansoddi ar gyfer unigolion, grwpiau a mudiadau. Y mae'n gyfarwyddwr a chynhyrchydd *Ffilmie Matinee*.

Ond y tu ôl i bob seren ddisglair mae yna, ddyn da. Myfyr yw'r dyn da hwnnw. Myfyr Isaac, y gitarydd tawel sy'n gefn i bob cyfansoddiad ac sy'n sicrhau sain dynn broffesiynol. Fe sy'n gefn i'r gantores, yr actores a'r gomidïen a fe hefyd sy'n golchi'r llestri iddi hi, Elan, Gidion, Miriam, Morgan a Greta. Os gall unrhywun eu perswadio i ddod i'r Ŵyl yn deulu cyfan yna byddwn wedi sicrhau cynulleidfa deilwng *ready made!* Croeso atom Caryl. Bydd drugarog!

Pethe doeddech chi ddim yn eu gwybod am ein beirniad:-

Hoff Actor - Gene Hackman!
Hoff fwyd - Cyri a hufen iâ Cadwaladr.
Hoff ffilm - "It's a wonderful life".
Hoff Ardal - De Ceredigion.
Hoff Ganwr - Michael Bolton.
Beth sy'n ei gwylltio - rhifau ceir personol a phwdin jam roli poli.
(Diolch i Sêr Heddiw - Gwasg y Lolfa!)

8.00 ***Cwmni'r Dwrlyn E.R.*** yn cyflwyno

STEIL AR BEN STÔL gan Emlyn Davies

Cast *(yn nhrefn eu hymddangosiad)*

LOWRI	Cyd-berchennog y Swyddfa Bost	Eleri Jones
PHYLLIS	Gwraig y ficerdi	Ann Jones
BERTIE	Gwr Lowri a chyd-berchennog y post	Emlyn Davies
LAWRENCE	Gwerthwr taclau a nwyddau ail-law	Wyn Rees
HARVEY	Cynhyrchydd teledu	Rowland Wynne
GRUFF	Postmon	Ifan Roberts
CEINWEN	Help llaw yn y siop	Ann Dwynwen
DAPHNE	Egin actores - merch Ceinwen	Anna Sion

COFWEINYDD	Ioan Rhys Jones
CYNHYRCHYDD	Ifan Roberts

Gyda'r archfarchnad yn prysur fynd â'r cwsmeriaid oddi arnyn nhw, Camelot yn disgwyl iddyn nhw werthu llawer mwy o docynnau bob wythnos a'r Swyddfa Bost yn bygwth eu cau, mae hi'n argyfwng ar Ceinwen a Bertie.

A all dathliad y clwb criced lleol eu helpu? Neu ai Daisy a Meg fydd eu hachubiaeth?

Drama newydd sbon gan awdur lleol - dyma'r *premiere!*

9.00 **Beirniadaeth a chyflwyno'r tlysau.**

7.00 Nos Wener 29 Tachwedd 1996

Cwmni Ysgol y Cymer yn cyflwyno

A DDIODDEFWS A ORFU
Sgript gan John A Owen. Cerddoriaeth gan Eirlys Gravelle

Cast

RHYS	-	Daniel Davies
SHARON	-	Carla Bartlett
GRINDS	-	Craig Spanswick
LEANNE	-	Carys Parry
STEPHEN HUWS	-	Lee Griffiths
Y SHAD	-	Richard Phillips
ANWEN	-	Siriol Williams
ATHRAWES DDRAMA	-	Bethan Ware
ATHRO MATHEMATEG	-	Gethin Evans
ARWEINYDD STEDDFOD SIR	-	Gethin Evans
BILLY FAT	-	Andrew Rogers
BERNARD	-	Liam O'Brien

Mae'r ddrama gerdd hon yn sôn am fywyd Rhys Gwyn a'i ffrindiau sy'n wynebu cyfnod anodd T.G.A.U. yn un o ysgolion Uwchradd Cymraeg y De-Ddwyrain. Gwelwn Sharon, yn gymeriad cryf ac egwyddorol, ond nad yw cweit yn "ffito" i mewn i ddelwedd yr athrawon oherwydd ei chefndir a'i hamgylchiadau. Mae'n ceisio ymdopi â bywyd ysgol a'i bywyd personol gyda'i chariad Bernard. Fe welwn agwedd yr athrawon tuag ati. Mae cymeriad Sharon i'w weld ymhob ysgol Gymraeg. Faint o gyfle y mae Sharons y byd yma yn ei gael yn ein hysgolion ni?

C A M B R E N S I S

7.00 Nos Fawrth 26 Tachwedd

Cwmni Ysgol Gyfun Gwynllyw'n cyflwyno detholiad o'r ddrama

'PERTHYN'

Cast

Beatrice Jones
Hugh Edwards
Sherri Jones
Geraint Criddle
Isabel Sian Mason

Dyma ddisgyblion o flynyddoedd unarddeg a deuddeg. Mae rhai ohonynt yn astudio drama ar gyfer T.G.A.U. ar hyn o bryd ac yn nosbarth chwech.

Yn fras, byddwn yn perfformio detholiad o'r ddrama 'Perthyn' gan y dramodydd Meic Povey. Drama ydyw sydd yn sôn am losgach rhwng tad a merch. Mae ein perfformiad yn arddangos sut mae'r uchod yn effeithio ar y teulu, ac ar unigolion o fewn yr uned deuluol. Addasiad o'r ddrama ydyw sy'n cynnwys amryw o olygfeydd bychan a monologau.

8.00 ***Cwmni'r Dwrlyn W.E.O.*** yn cyflwyno'i Noson Lawen flynyddol:

SÊR YN EU LLYGAID

Yr un hen ddwli a'r un hen wynebau ag arfer. Wedi clywed si nad oedd neb arall yn y categori yma eto eleni a'r cast wedi syrthio am dlws hardd y gystadleuaeth, dyma fynd ati unwaith eto.

Mae cyfarfod i ymarfer yn gwbl wrthun i'r artistiaid hyn gan fod eu talentau'n cael cyfle i flodeuo dan amodau byrfyfyr. Er i ambell eitem ymddangos yn herciog neu'n anorffenedig i'r llygad annisgybledig, y mae'r cyfan yn gwbl fwriadol ac y mae arwyddocâd artistig i bob dim.

Bydd cynulleidfa ddiwylliedig a beirniad goleuedig yn sicr o werthfawrogi'r cyflwyniad pwysig hwn yn natblygiad *genre* y Noson Lawen yng Nghymru ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif.

Cynhyrchydd a'r weledigaeth wreiddiol - Wynfford Ellis Owen.
(A'r un sy'n fodlon derbyn y bai)

9.00 ***Cwmni Gwen 'A'*** *yn* cyflwyno ***'RHYW DDYN RHYW DDYNES'***
gan Dewi Wyn Williams

Cast

SIÂN	:	Mared Swain
WIL	:	Gavin Price

Drama am ddau berson yn tyfu i fyny ac yn wynebu problemau'r byd. Gwelwn sut mae Wil a Siân yn darganfod ei gilydd yn gyntaf trwy chwarae, ac wedyn trwy fod yn oedolion.

* Mae drama arall gan y cwmni nos Iau

*Dechreuwyd **Cwmni Gwen** ym 1995, er cof am Gwen Heulyn, merch ifanc o ardal Pontypridd. Ym 1995 perfformiwyd "Chicago" gan y cwmni, ac yn dilyn y llwyddiant yna, eleni fe berfformiwyd Draw Dros y Don yn Theatr y Miwni, Pontypridd. Ein bwriad yn y dyfodol agos yw cystadlu mewn Gwyliau Drama, a hefyd mynd fel Cwmni i Eisteddfod yr Urdd Islwyn ym 1997.*

Lluniaeth ysgafn ar gael

8.15 ***Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari'n*** cyflwyno

RHAI POBOL - Addasiad o 'Wyneb yn Wyneb' gan Meic Povey ac *Angels in America* gan Tony Kusher

Cyfuniad o ddisgyblion blwyddyn 11 a 13 sy'n perfformio. Carwriaeth anghonfensiynol a welir yma a brwydr yr unigolion i ddod i dermau â hynny. Mae'r neges yn berthnasol ac yn uniongyrchol. Nid jôc yw aros - mae'n lladd.

9.30 ***Cwmni Athrawon Ysgol Gyfun Llanhari'n*** cyflwyno

'OLWCH A CHULWEN'

Cast

DYFALWCH !

Cafwyd y weledigaeth ar gyfer y cynhyrchiad hwn yn chwedl wreiddiol 'Culhwch ac Olwen'; a sbardunwyd y cywaith gan ddrama gerdd Ysgol Gyfun Llanhari 1996. Diolch i bob un a fu ynghlwm wrthi am eu hysbrydoliaeth.

(Mae unrhyw debygrwydd i gymeriadau byw new farw yn gwbwl ddamweiniol!)

DERWEN

7.00 Nos Iau 28 Tachwedd 1996

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cyflwyno

'HIST! MAE'R BABI'N CYSGU' gan J.R.

Cast

BET	:	Helen Morgan
TILLY	:	Bethan Davies
ERICA	:	Michelle Price

Chwaraeir y ddrama hon gan dri o ddisgyblion blwyddyn 12 yr ysgol. Yn y ddrama gwelwn ddwy chwaer yn byw bywyd o ffantasi plentyn gan gloi erchyllderau'r byd allan o'u bywydau. Ond, i darfu ar eu bywyd daw ymwelydd a'r canlyniad yw bygythiad i berthynas y chwiorydd.

7.45 ***Cwmni Gwen 'B'*** *yn* cyflwyno ***'GLYWSOCH CHI'R UN'***
gan Branwen Cennard

Cast

RICHARD	:	Daniel Davies
ANGHARAD	:	Nicola Truelove
RHIAN	:	Bethan Reynolds

Drama yw hon am gyfreithiwr o'r enw Richard sydd yn ei 40au. Mae'n briod â Rhian ond yn godinebu gydag Angharad. Tybed pa fath o ddyn y credwch chi yw Richard? Mae ganddo ei farn bersonol.

**** Clywir rhegfeydd yn ystod y cyflwyniad hwn.***

TAFOD ELÁI
£2.50
AM DANYSGRIFIAD BLWYDDYN!!

7.00 Nos Fercher 27 Tachwedd 1996

Cwmni Ysgol Rhydywaun yn cyflwyno

SEREN NEWYDD - gan Gareth Glyn

Cyflwynir hanes y Geni a geir yn y Beibl. Pencadlys Cesar Awgwstws yn Rhufain yw man cychwyn ein taith. Yna awn ymlaen i Fethlehem, canolbwynt y digwyddiad.

Cast

CESAR AWGWSTWS	-	Daniel Reid	
HEROD	-	David Samuel	
MAIR	-	Emma Hickey	
JOSEFF	-	Michael Hanbury	
STORÏWYR	-	Kelly James	
		Angharad Jones	
		Angharad Williams	
MERCHED SY'N HEL CLECS	-	Siwan Wigley	Rebecca Shepherd
		Catrin Murphy	Emma Powell
		Victoria Lewis	
Y BUGEILIAID	-	Gareth Davies	Hywel Davies
		Rhys Davies	Rhodri Hall
		Bryan Smith	Jonathan Webb
YR ANGYLION	-	Sarah Cook	Rhiannydd Evans
		Kelly James	Cara Galloezzie
		Angharad Jones	Rachel Jones
		Emma Powell	Samantha Summerill
		Angharad Williams	Rhian Woodward
Y SÊR - DDEWINIAID	-	Thomas Lancaster	Jamie Meredith
		Tomos Owen	

DAWNSWYR,	MAIR	-	Rebecca Seldon
	HEROD	-	Ruth Seldon

8.00 ***Cwmni Ysgol Gyfun Glantaf*** yn cyflwyno

'RHWNG POB CEGAID' cyfieithiad Emyr Edwards o ddrama fer Alan Ayckbourn

Cast

PEARCE	:	Huw Stephens
MRS PEARCE	:	Perri Rees
POLI	:	Kate Widgery
MARTIN	:	Hefin Meara
GWEINYDD	:	Rhys Bishop

Cefn Llwyfan : Sam Wigg ac Owain Richards

Disgyblion blwyddyn 11 a 12 yw aelodau'r cwmni

8.45 ***Panto Llanhari***'n cyflwyno

PEN TOST A LLOND BOL gan Angharad Devonald
Cerddoriaeth : Iestyn Morris a Gareth Thomas

Dewch gyda ni ar antur fwya'ch bywyd i ddarganfod rhannau eich corff. Dewch i gwrdd â'r celloedd coch, gwyn a cholestrol. Mae'r gwir y tu fewn i chi. Mae'r ateb yn eich calon.

***Rhybudd - anaddas i unrhywun heb synnwyr digrifwch**

Diolch i'r Noddwyr

9.30 **Cwmni'r Dwrlyn M.R.** yn cyflwyno

DIRGELWCH Y CARIBÎAN CIWCYMBAR
gan Gwynedd Huws Jones

Ceir dwy olygfa yn y ddrama hon. Bydd egwyl fer rhyngddynt.

MADAM	y perchennog	Nia Williams
JENNIFER	y rheolwraig	Carol Williams
ANNETTE	y forwyn Ffrengig	Meira Ellis Owen
HELGA	y gogyddes	Eiry Rochford
MISS BUMBLE	cyfnither yr enwog Miss Marple	Margaret Roberts
MISS BEE	ffrind Miss Bumble	Sheila Dafis
MRS BOWEL	cwsmer	Judith Evans
MRS PRYDDERCH	cwsmer	Gill Rees

COFWEINYDD	Dinah Williams
CYNHYRCHYDD	Margaret Roberts

Mae pethau rhyfedd yn digwydd yn y fferm iechyd! Pethau digon rhyfedd i alw am alluoedd anhygoel y ditectif Miss Bumble a'i chydymaith ffyddlon Miss Bee.

tafod elái

Pryd o'r Tafod £2.50 am flwyddyn

tafod elái

GŴYL DDRAMA TAFOD ELAI '97
Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdre

Nos Lun 24.11.97	Nos Fawrth 25.11.97	Nos Fercher 26.11.97	Nos Iau 27.11.97	Nos Wener 28.11.97
Dawnsio y Fenter - *Traed y Ddrang*	Ysgol Ystalyfera	Ysgol Rhydfelen I	Ysgol Glantaf	Theatr Crwys
Panto'r *Diawled Dawnus*	Ysgol Llanhari	Panto Gwynllyw	Cwmni'r Pentref	Noson Lawen Cwmni Gwen
Ysgol Rhydywaun I	Cwmni'r Dwrlyn	Ysgol Gwynllyw	Ysgol Cwm Rhymni	Panto Llanhari
Ysgol Rhydywaun II	Athrawon Llanhari	Ysgol Rhydfelen II	Cwmni Cwm Ni	**Beirniadaeth a chyflwyno tlysau**
ARLWYO				
Cylch Meithrin Y Beddau	**Cylch Meithrin Llanilltud Faerdref**	**Merched y Wawr Y Garth**	**Cylch Meithrin Pentre'r Eglwys**	**Pwyllgor Cymraeg i Oedolion Menter Taf Elái**

Golygydd Tafod Elái:- **Penri Williams**
Trefnydd:- **Colin Williams**
Cyfeilydd yr Ŵyl:- **Carey Williams**

Ffotograffydd:- **D J Davies**
Swyddogion y Drws:- **David Knight/ Gill Rees / Jim Morris**

Beirniad - Cliff Jones

24,25,26,27,28, Tachwedd

12 *fed*

GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

1997

Neuadd Dowlais
Llanilltud Faerdre

Rhaglen swyddogol - £1.00

Gair o Groeso

Er mor wir yr hen air, tlws yw popeth bach, rwy'n siwr na fydd y ffaith fod Gŵyl Ddrama Tafod Elái yn tyfu i bum noson orlawn yn difetha dim o'i rhin a'i hagosatrwydd. Bu'r parodrwydd i gyd-dynnu wrth drefnu'r wythnos mor gydweithredol ag erioed. Hefyd bu parodrwydd y beirniad i ymgymryd ag wythnos mor llafurus yn ryddhad - diolch o galon i ti Cliff.

Eleni, yn ymddangos am y tro cyntaf mae Cwmnïau *Ysgol Gyfun Ystalyfera, Theatr Crwys, Diawled Dawnus* a *Thraed y Ddraig.* Croeso cynnes iawn iddynt ac hefyd braf yw croesawu yn ôl nifer o **hen** wynebau.

Datblygiad newydd yw'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Nid cyfieithu efallai yw'r gair iawn. Yn hytrach, ymgais i gynnal y sawl sydd ddim mor gadarn ei afael ar yr iaith ac i gydnabod bodolaeth y nifer cynyddol o ddysgwyr yn yr ardal gydag ambell sylw a chrynodeb hwnt ac yma, yw'r bwriad. Diolch i'r "cynhalwyr" meicroffon am fod mor barod eu gwasanaeth.

Y llynedd cafwyd gŵyl i'w chofio - gweler y tudalen gefn am y canlyniadau. Eleni, mae 'na 19 cynhyrchiad i'ch difyrru - 10 cwmni ieuenctid, 5 cwmni oedolion, 3 phantomeim ac 1 parti noson lawen. Rhywbeth i bawb, gobeithio.

Diolch i Bwyllgor Neuadd Dowlais. Diolch i'r cyfieithwyr, yr arlwywyr, y noddwyr, y stondinwyr, y cyfeilydd, y ffotograffydd, swyddogion y drws, y trysorydd a golygydd y *Tafod*. Diolch wrth gwrs i bob un o'r cwmnïau ond yn olaf diolch i chi'r gynulleidfa.

Y Trefnydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

BARCUD DERWEN

CAMBRENSIS

Cliff y Clocsiwr fydd yn cloriannu

Ganwyd Cliff Jones yn y Bala (w'ch chi, wâl) yn fab i Harri a Catrin Jones. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Goch y Bala, lle cafodd addysg dda!, ac yna aeth i Ysgol y Berwyn am ei addysg uwchradd. Yno daeth o dan ddylanwad dau athro drama dylanwadol sef Buddug James a Gareth Jones. Derbyniodd hyfforddiant pellach ym myd y theatr gan Norah Isaac a Ceri Francis pan aeth i Goleg y Drindod. Ymlaen ag e wedyn i'r ddinas fawr ddrwg i Goleg Cerdd a Drama Caerdydd. Bu'n aelod o Gwmni Drama Ieuenctid Cymru lle cafodd y cyfle i feithrin ei dalentau dan lygaid craff Emyr Edwards.

Yn y saithdegau ymddangosodd ar lwyfannau gyda Chwmni Drama Canolfan Caerdydd. Cyflwynodd nifer o raglenni addysg ac adloniant ysgafn i HTV a BBC Cymru. Yn y cyfnod hwn hefyd y mae rhai yn ei gofio fel athro bochgoch yn dysgu ym Mryntaf, y Ddraenen Wen a Phont Sion Norton.
Ymunodd â'r BBC ym 1986 lle bu'n cynhyrchu'r arlwy y mae pob un ohonoch wedi'i fagu arno :- *Rhaglen Hywel Gwynfryn, Rhaglen Russel Grant, Dechrau Canu Dechrau Canmol, O'r Maes a Mwy, rhaglenni Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd a Llangollen, O'r Fedwen i'r Fari, Streic, Eric* ac wrth gwrs *Pobol y Cwm.*

Erbyn hyn y mae'n gyfarwyddwr hunangyflogedig. Y mae'n llawer rhy ifanc i edrych yn ôl ond mae'n ystyried y tri achlysur canlynol fel uchafbwyntiau ei fywyd hyd yma (h.y cyn yr wythnos hon) :-

- ☐ Derbyn gwobr arbennig BAFTA ar ran Pobol y Cwm
- ☐ Parti Dawns Nantgarw'n ennill yn Llangollen ym 1989
- ☐ Cwrdd â'r Cliff Jones arall hwnnw fu'n chwarae pêl-droed i Spurs a Chymru.

Gŵyr rhai ohonom am ei ymdrechion ef i chwarae pêl-droed ac o'i hoffter o baffio h.y gwylio paffio gan amlaf yn enwedig Prince Nasim. Mae pawb ohonoch yn gwybod am ei gyfraniad i fyd dawnsio gwerin. Mae'n hoff o wrando ar Ella Fitzgerald ac Oscar Peterson. Mae'n yfwr gwin coch ac yn ymddiddori mewn chwisgi ac yn Glenmorangei'n arbennig.

O'nd yw e'n for amryddawn a dlyr? Beth yn y byd fydd e'n ei feddwl o'r "arlwy" ddaw i'r llwyfan yr wythnos yma? Rwy'n gwbl hyderus y bydd yn ymdoddi'n gartrefol i'n plith. Mae'n 'nabod y rhan fwyaf ohonoch chi beth bynnag. Croeso atom Cliff.

Hoff Actor - Tom Courtney
Hoff Actores (we hei!) - Geraldine Macgowan
Hoff fwyd - Hwyaden
Hoff ffilm - Jaws

YDYCH CHI'N COFIO?

Dathlu penblwydd y papur yn llwydd oed oedd yr ysgogiad i sefydlu Gŵyl Ddrama. Ydych chi'n cofio Dyfan yn feirniad 12 mlynedd yn ôl bellach? Yna daeth y cawr o Drelales a'i sylwadau caredig, diffuant. Pwy all anghofio urddas tawel John Hefin? Rhaid oedd gwahodd T James Jones yn feirniad ac yntau wedi cyflwyno cwpan i'r Ŵyl. Mor ffodus oeddem i gael gwasanaeth Gwenlyn, cyn ei farwolaeth annhymig. Diolch i garedigrwydd Emyr Edwards mae ganddom dlws i gydnabod actor / actores yr Ŵyl. Roedd hi hefyd yn bryd cael gwraig i feirniadu ac fe gawsom rai arbennig. Lis Miles, Iola Gregory, Heddyr Gregory a'r llynedd, Caryl. Llwyddodd Elion Williams i gydio yn nychymyg pawb ifanc ei ysbryd. Diolch i Heddyr Gregory am gyflwyno TLWS CYNRADD i'r Ŵyl. Eleni estynnir croeso i **Cliff.**

7.00 Nos Lun

Clwb Traed y Ddraig

Clwb Dawnsio Menter Taf Elái yn cyflwyno

"Hei Tyrd Draw" - clasur Caryl Parry Jones

Dawnswyr:-

Catrin Evans
Lowrie Kuiper
Claire Eprile
Danielle Stephenson
Caryn Edwards
Ceri South
Emma Wilkins - Lowe
Marianne Edwards
Sian Edwards

Plant ffodus ysgolion cynradd yr ardal yw rhain sydd wedi ymaelodi â grŵp dawnsio a sefydlwyd gan Fenter Taf Elái y llynedd. Maent yn ymarfer bob nos Lun yn y Tŷ Model yn Llantrisant. Heno maent am roddi perfformiad o'u gwaith diweddaraf.

Hyfforddwraig:- Sharon Warren

7.30

Cwmni Drama'r Diawled Dawnus
yn cyflwyno
Sindarela

Drebongliad "gwahanol" yn y Gymraeg gan Dawn Williams

Cast

Sindarela	Emma Thomas
Prince Charming	Ifan Glyn
Buttons	Nicholas South
Llys Fam	Anna Glyn
Dad	Osian Jones
Peg	Ryan Chappel
Meg	Darren Chappel
Tylwythen Deg	Kathryn Osbourne
Cyfarwydd 1	Rhiannon Griffiths
Cyfarwydd 2	Ffion Lewis
Cyfarwydd 3	Catryn Grundy
Ffrind y Tywysog	Huw ap Rhys
Y Pentrefwyr	Kathryn Osbourne Lowri Green Sian John
Brenin	Meilyr Ifan
Brenhines	Nia Ifan

Gwisgoedd	*Footlights* - Pontyclun
Goleuadau	Amy Williams
Set	*Theatr Spectacle*
Rheolwraig y llwyfan	Tracey Williams
Llenni	Carwyn Hedd
Cyfarwyddwraig	Dawn Williams
Diolchiadau	Steffan Webb a Glenys Jones yn swyddfa'r Fenter.

Stori draddodiadol yw *Sindarela* sydd yn cynnwys cymeriadau difyr a chas, drwg a da, pert a hyll. Mae'r stori wedi'i haddasu nid yn unig i'r iaith Gymraeg ond hefyd at bersonoliaethau'r aelodau. Perfformiad cyntaf y cwmni newydd sydd yn rhedeg o dan nawdd haelionus *Menter Taf Elai* *Menter Iaith*. Os oes diddordeb ymuno gydag unrhywun dros 12 oed, cysylltwch â Dawn Williams ar 01443 203693.

EGWYL

8.30

Ysgol Gyfun Rhydywaun I
yn cyflwyno
"Miss Perffaith"

Cyfieithiad o olygfa gan Mary Krell-Dishi

Cast

Teri :	Lisa Easton
Jan :	Emma Hickey

Golygfa sy'n dangos y pwysau sydd ar ein hieuenctid heddiw i fod yn "berffaith" a sut mae hyn yn gallu effeithio arnynt.

EGWYL

9.15

Ysgol Gyfun Rhydywaun II
yn cyflwyno cyfieithiad o
"Mother Figure"

gan Alan Ayckbourne

Lucy :	Emma Rowell
Rosemary :	Catrin Murphy
Terry :	Hywel Davies

Golygfa sy'n dangos y pwysau sydd ar wraig tŷ a pha mor unig mae'r bywyd yma'n gallu bod. Gwelwn dristwch pen arall y spectrwm sef bywyd gwraig tŷ heb blant.

Egwyl

7.00 *Nos Fawrth*

Ysgol Gyfun Ystalyfera

yn cyflwyno

RHWNG POB CEGAID

gan Alan Ayckbourne

Cast

PEARCE	:	Cennydd Davies
MRS PEARCE	:	Fflur Wyn
POLI	:	Rhiannydd Jones
MARTIN	:	Glyn Lloyd
GWEINYDD	:	Gareth Bale
GWEINYDDES	:	Hannah Herbert Evans

COFWEINYDD	:	Andrew Mackay
CYFARWYDDWR	:	Laurel Davies
RHEOLWR LLAWR	:	Jenna Morgan
IS-REOLWR LLWYFAN	:	Carole Lewis
		Hannah Swingler

Dwy briodas gythryblus, catalyst dynol ym mherson y gweinydd. Mae'r ddrama'n agor yn ddigon syml. Mae'r gweinydd yn gwrtais ac yn amyneddgar ac mae'n amlwg mai'r "cwsmer sydd bob amser yn iawn" yw ei arwyddair. Dyma enghraifft benigamp o gomedi sefyllfa.

Egwyl

£2.50 am danysgrifiad blwyddyn i sicrhau ei ddyfodol.

8.00

Ysgol Gyfun Llanhari

yn perfformio detholiad allan o'r ddrama

'I'

a gyfieithwyd gan John Owen

Cast

Mared Swain
Aled Davies
Helen Jarman
Huw Grundy
Rhodri Buye
Lucy Lloyd

Seilir y ddrama hon ar ddigwyddiadau mewn tafarn a chawn ein cyflwyno i drawsdoriad eang o gymeriadau diddorol.

Egwyl

BARCUD DERWEN

ELIDIR

CAMBRENSIS

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Pryd o'r Tafod £2.50 am flwyddyn

9.00

Cwmni'r Dwrlyn
yn cyflwyno

TU HWNT I'R LLENNI

gan Eic Davies

Cast

MRS JAMES	Sheila Dafis
MARGED	Margaret Roberts
SAM	Ifan Roberts
GWEN	Eleri Jones
SIAN	Carol Penri
JOHN	Wyn Rees
MRS ARTEMUS PRICE	Ann Dwynwen Davies
NELI	Nia Williams
GWILYM	Eifion Glyn
Cofweinydd	Judith Evans
Sain	Emlyn Davies
Cynhyrchydd	Margaret Roberts

Mae Mrs James, awdures a chynhyrchydd, ar bigau'r drain wrth i'r cast (amaturaidd braidd) ddifetha ei champwaith pedair act. Fe gawn ni gipolwg ar ddrama arall - yr un tu hwnt i'r llenni - yng nghefn hen neuadd ddrafftiog lle mae'r cast yn dianc o olwg eu cynulleidfa. Mae yma densiwn, mae yma lenni sy'n gwrthod gweithio, mae yma ambell brima donna ac, oes, y mae yma ramant! A dweud y gwir, mae'n ddigon tebyg i berfformiadau arferol Cwmni'r Dwrlyn - heb y rhamant, wrth gwrs!

Un o ddarnau cynnar y diweddar Eic Davies, arloeswr ym maes darlledu rhaglenni chwaraeon a bathu termau yw "Tu hwnt i'r llenni". Roedd Eic hefyd yn weithgar o'i ddyddiau coleg yn Aberystwyth ym myd y ddrama. Bu'n athro yng Nghaerdydd a Mynwent y Crynwyr cyn dychwelyd i'w fro yng Nghwm Tawe a sefydlu cwmni enwog *Y Gwter Fawr*. Tra bu yn y brifddinas, bu Eic yn aelod o gwmni Minny Street a *Chwaryddion Tŷ'r Cymry* a pherfformiwyd y ddrama un act hon gan griw Tŷ'r Cymry ym 1941.

9.30

Cwmni Athrawon Llanhari'n
cyflwyno

JYNGL LLANHARI

dim awdur o fath yn y byd - gwaith byr fyfyr

Cast

Mowgli	Dafydd Roberts
Bennett Balloo	Irfon Bennett
Sarff	Rosie James
Mwnci 1	Eurgain Dafydd
Mwnci 2	Rhian Griffiths
Prif Eliffant	Llion Jones
Eliffant 1	Nicola Evans
Eliffant 2	Aled Pennant
Eliffant 3	Non Thomas
Eliffant 4	Carys Roberts
Cyfeilyddes	Helen Davies

Mae Mowgli wedi cael digon. Mae e am ffoi . . . . . .

7.00 *Nos Fercher*

Ysgol Gyfun Rhydfelen I
yn cyflwyno

MAN GWYN

Cerddoriaeth a chaneuon gan Euros Rhys a Sian Rhiannon

Cast

Amy Williams	Lowri Jones
Geraint Chinnock	Victoria Jones
Mari Griffiths	Talys Hunt
Sali James	Geraint Rees
Caroline Cowles	Osian Llewelyn

Alun Cowles	Jenny Johnson
Dafydd Coleman	Leanne Thomas
Lowri Llewelyn	Siôn Davies
Ceren Roberts	Osian Llwyd
Dylan Hughes	Paul Morgan
Bethan Williams	Daniel Philips
Angharad Richards	Johnathon Darby
Gemma James	Ceri Cawnt
Sarah Jones	Catherine Blyth
Rhydian West	Emma Thomas

Ysgol yn y cwm. Athrawon boncyrs! Bwlio cas! Ysbryd mamgu! Y cyfan yn creu ffantasi o beth all ddigwydd pe bai'r plant yn rhedeg ysgol. A fydd yna ddiweddglo hapus? Plant Blwyddyn 7,8,9 a 10 yn cyflwyno y mini ddrama gerdd newydd hon.

Egwyl

Diolch i'n Noddwyr

8.00

Ysgol Gyfun Gwynllyw I
yn cyflwyno

Y DEWIN OZ

Cast

Delyth	:	Thea Jones
Glenda, Gwrach Ddrwg y Dwyrain	:	Bella Itani
Gina, Gwrach Dda'r Gorllewin	:	Eleri Hallett
Llew	:	Johnathan Reed
Dyn Tun	:	Rhys Williams
Bwgan Brain	:	Steven Morgan
Tylwythen Deg	:	Bethan Hughes Jones
Y Dewin	:	Sian Jackson

Fiddles	:	Lucinda Beighton

Y Mwnsgins

Sam Fox	Cerian Jones
Gwilym John	Natalie Hares
Rhys D.W. Jones	Huw Beynon
Aaron Lilic	Michelle Howells
Elin Martin	Rebecca Wheeldon
Charlotte Lloyd	Danielle Pritchard
Hâf Morgan	Catrin Thomas

"Sgit" yw hon ar y ffilm enwog "The Wizard of Oz". Cewch weld y llew, dyn tun, bwgan brain, toto, Delyth (Dorothy) a'r Mwnsgins mewn ffordd na welsoch chi o'r blaen.

Egwyl

9.00

Ysgol Gyfun Gwynllyw II
yn cyflwyno

"Pethau Brau"

detholiad o Glass Menagerie gan Tennesse Williams

Cast

Amanda	- y fam	:	Isabel Mason
Laura	- y ferch	:	Alexa Hinnem
Tom	- y mab	:	Geraint Criddle
Jim O'Connor	- yr ymwelydd bonheddig	:	Steven Davies

Stori am gariad sy'n wefr yn y dychymyg, ac eto'n ddim ond rhith i'w ddinistrio gan bethau fel y macnt yw'r ddrama hon gan y dramodydd Americanaidd Tennesse Williams.

Egwyl

? *Faint yw gwerth y Tafod i chi?* ?

10.00

Ysgol Rhydfelen
yn cyflwyno

Eilian Ab Dic Siôn

gan Dafydd Huws

"Ma' rhywbeth rhyfedd iawn yn mynd ymlaen man hyn".

Cast

Carys Davies	Adam Clown
Sara Mair Raby	Rhys Jones
Catrin Leyshon	Jon Breakenbury
Angharad Daniels	Owain Ford
Bethan Reynolds	Eve Davies
Rhodri Jones	Louise Davies
Catrin Dafydd	Beca Caffery
Siwan Francis	Bethan Jenkins
Gavin Ashcroft	Lowri Jones
Ria Darch	Alun Reynolds
Caroline Cowles	

Be' ma' Mulder a Scully yn 'neud ym Mhontypridd? Huw a Grav yn sbeis M15! Esgyrn Dafydd! Na, esgyrn Glyndwr! Ble ma' nhw? Ydych chi ar goll 'fyd? Beth sydd wedi digwydd i'r Cymry go iawn? Mae'r atebion gyda ni.

Diolch i'r Noddwyr

7.00

NosTau

Ysgol Gyfun Glantaf
yn cyflwyno

Yng Nghlwm

Cyfieithiad G Wyn Jones o'r ddrama "Ravage/Love" gan Sam Shepard

Cast

Leah Elen Jones	Manon Eleri Jenkins
Huw Maredydd Stephens	Lowri Jones
Owain Hopcin Richards	Catrin Hourahane
Elen Mair Thomas	Kate Widerey

Cynhyrchydd G.Wyn Jones

Egwyl

8.00

Cwmni'r Pentref
yn cyflwyno

MIS MÊL

Cast

Dafydd
Howard
Elin
Meima
a rhywun arall

Pedwar poeth mewn pabell wyntog rhywle ym mherfeddion Cymru heb halen o'r "Hynnon" i ryddhau gwynt .....o'r beic.

TAFOD ELÂI
£2.50
AM DANYSGRIFIAD BLWYDDYN!!

9.00

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni'n
cyflwyno

CNAWD

Cyfieithiad Emyr Davies o *Tissue* gan Louise Page.

Cast

SALI	:	Lynwen de la Taste
DYNES	:	Tracey Parfitt
DYN	:	Damien Jones

Tri o ddisgyblion blwyddyn 12 sydd yn cyflwyno'r ddrama onest yma am ferch ifanc yn wynebu profiad erchyll a gwelir sut mae'n dod i delerau â'r digwyddiad yma.

Egwyl

Lluniaeth ysgafn ar gael

10.00

Cwmni Cwm Ni'n
cyflwyno

Drama Nadolig

gan Gareth Williams

Cast

Hapi	:	Densil John
Bysedd	:	Gareth Williams
Mr Ross	:	Ben Jones
Gweneira	:	Karen Evans
Hilda	:	Rita Jones
Cyfarwyddwr	:	Alan Cook
Set	:	Fred Brooks

Cwmni o dalentau mawreddog o ardal Cwm Rhymni sy'n cwrdd i fireinio'u sgiliau dramatig sylweddol bob nos Fercher yng Nghanolfan Bedwas. Mae'r cwmni wedi ei sefydlu ers dros bum mlynedd ac yn ymgymryd â champweithiau dramatig yr ugeinfed ganrif. Gwnant hyn unwaith eto gyda *Drama Nadolig*, gwaith na chlywyd amdano cyn hyn ond a fydd, wedi'r perfformiad graenus hwn yn sicr o gael ei gydnabod yn garreg filltir thesbaidd yn yr iaith Gymraeg!!!

7.00 *Nos Wener*

Theatr Crwys
yn cyflwyno

RHWNG POB CEGAID

gan Alan Ayckbourne

Cast

PEARCE	:	Gwynn Cadnant Griffith
MRS PEARCE	:	Joy Parry
POLI	:	Alys Jones
MARTIN	:	Gareth Jones
GWEINYDD	:	Anthony Evans

Comedi un act Alan Ayckbourne wedi'i chyfieithu gan Emyr Edwards. Mae'r chwarae wedi'i leoli mewn bwyty, a'r cymeriad allweddol yw'r gweinydd sydd yn hofran fel barcud rhwng un bwrdd a'r llall.

Cwmni Drama Capel y Crwys yng Nghaerdydd yw *Theatr Crwys* ac mae wedi cael peth llwyddiant ym myd cystadleuol y ddrama yng Nghymru gyda'r pinacl yn y Bala eleni pan enillodd y cwmni'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth actio drama fer. Dyma'r tro cyntaf i'r cwmni gystadlu yng Ngŵyl Ddrama Tafod Elái, a'r tro cyntaf iddynt gystadlu gyda'r cynhyrchiad yma.

Egwyl

8.00

Cwmni Gwen
yn cyflwyno
Noson Lawen

Ymunwch yn ein taith o angylch Pontypridd. Cewch gwrdd â Roy Noble, Margaret Williams ac wrth gwrs Neil Jenkins. Daliwch y trên o'r neuadd i'n meca ni, Sardis Road.

Cynhyrchydd : Nicola Meleri

Egwyl

9.00

Ysgol Gyfun Llanhari
yn cyflwyno'r pantomeim
Pantew

gan y chweched dosbarth

Cawn hanes bywyd carwriaethol Tudur ap Tewdwr a'r dywysoges Pamelopi Perperoni. Nid yw'r llwybr yn esmwyth i'r ddau oherwydd ymyraeth Big Mac a daw Mrs Cymell i achub y dydd.

Egwyl

9.30

Beirniadaeth Cliff Jones
a'r cyflwyniadau

Lluniaeth ysgafn ar gael

Blwyddyn	Beirniad	Tlws Ysgol/ Ieuenctid (Drama orau)	Tlws Ifan Wyn (Drama oedolion orau)	Cwnan T.James Jones (Cwmni gorau'r Wyl)	Tlws Emyr Edwards (Actores) yr Wyl)	Tlws Panto (Agored)	Tlws Noson Lawen (Agored)	Tlws Heddyr Gregory (Cynradd)
1986	Dylan Roberts		Y Fawch Goch					
1987	Huw Ceredig	Rhydfelen	Club y Bont	Cwmni Un Nos				
1988	John Hefin	Cwm Rhymni	Club y Bont	Cwm Rhymni				
1989	T James Jones	Cwm Rhymni	Club y Bont	Cwm Rhymni				
1990	Gwenlyn Parri	Llanhari	Y Fawch Goch	Llanhari				
1991	Emyr Edwards	Cwm Rhymni	Club y Bont	Cwm Rhymni	Beth Angell			
1992	Les Miles	Rhydfelen	Cwmni '93	Llanhari	Leanne Hardman	Llanhari	Llantrisant	
1993	Iolo Gregory	Y Cymer	Y Dorfyn	Llanhari	Bethan Ellis Owen	Llanhari	Y Dorfyn	
1994	Lion Williams	Y Cymer	Llantrisant	Llanhari	Owain Williams	Llanhari	Y Dorfyn	
1995	Heddyr Gregory	Menter Taf Elai	Dorfyn B	Menter Taf Elai	Angharad Devonald	Llanhari	Y Dorfyn	
1996	Carol Parry Jones	Menter Taf Elai	Ashtonson Llanhari	Cwmni Gwen A	Gavin Preece	Llanhari	Y Dorfyn	
1997	Cliff Jones	?	?	?	?	?	?	?

CHWECHED DOSBARTH YSGOL GYFUN LLANHARI

YN CYFLWYNO

"PANTEW"

Dewch ar daith gyda Stêc a Cidni i wlad llawn bwyd, hyfryd bwyd! Cewch ddilyn hanes Tudur ap Tewdwr yn syrthio mewn cariad pur â'r dywysoges brydferthaf yn y pentref- Penelope Pepperoni. Ond, nid yw bywyd yn hawdd iddynt, gyda'r Big-Mac yn ceisio ennill cariad Penelope, trwy roi swyn y "Pot-Nŵdl" arni, ac hefyd Ken Tucky (tad Penelope) yn mynnu fod ei ferch yn priodi â'r Big-Mac. Ond, fe ddaw Misys-Cymhell i geisio ennill y dydd, trwy helpu Tudur i golli pwysau, ac i ddileu'r swyn trwy fwydo "Siwpyr-Nŵdls" i Penelope. Ond, y cwestiwn mawr yw- A wneith Tudur golli pwysau? Neu a wneith Penelope ej dderbyn fel ag y mae? Gwyliwch y panto i chi gael gweld!!

CHWECHED DOSBARTH YSGOL GYFUN LLANHARI

yn cyflwyno

"PANTEW"

CAST:-

Tudur-ap-Tewdwr: Hywel Roberts
Penelope Pepperoni: Lana Laidler
Stêc: Gemma Jones
Cidni: Llinos Jones
Y Big Mac: James Bellringer
Sal: Ceri Barnard
Mon: Cari Jones
Ela: Amie Phillips
Ken Tucky: Daniel Binks
Misys Knickerbockerglory: Alun Evans
Misys Cymhell: Lauren Phillips
Boi-ffit (1): Kristen Jeffs
Boi-ffit (2): Rhodri Morris
Boi-ffit (3): Paul Leyshon
Merch parti (1): Catherine O'Brien
Merch parti (2): Catherine Goss
Merch parti (3): Rhian Mahoney
Merch parti (4): Cheryl Williams
Merch parti (5): Natalie Challenger
Gweinidog: Dafydd Williams

CORWS:-

Gail Hemming
Kirsty Phillips
Siân Davies
Heledd Easterbrook
Rhiannon Curtis
Bethan Eyres
Sioned Jones
Claire Nottman
Carys Lamb
Ruth Hicks
Menna Davies
Louise Jones
Bethan Lewis
Catrin Rees
Delyth Hopkins

Cynhyrchwyr: Llinos Jones, Lauren Phillips & Gemma Jones
Cyfarwyddwyr: Gemma, Llinos & Lauren
Caneuon: Llinos Jones
Cyfeiliant: Tristan "Marv" Jones
Coreograffi gan: Lauren & Gemma
Goleuo & Sain: Ywain ap Rhys
Rheolwr Llwyfan: Francesca Mc.Cormick
Coluro: Gemma James
Set: Grŵp celf bl.12

Hoffem ddiolch i bawb â fu ynghlwm gyda'r pantomeim eleni, am eu hamser, eu hamynedd a'u hegni!!

DIOLCHIADAU

MARTYN GERAINT CERDDORIAETH

Pan ofynon ni i Martyn i helpu yr oedd yn awyddus ac yn frwdfrydig iawn i gynnig ei gymorth. Mae e wedi gwneud llawer iawn o waith yn addasu y cerddoriaeth i ni ac wedi gwario nifer o oriau ar y dasg. Mae Martyn wedi bod yn berson bendigedig i weithio efo. Gobeithio y gallwn ni weithio efo fe rhywbryd eto. Diolch yn fawr iawn Martyn.

When we approached Martyn to assist us he was very keen and enthusiastic to help. He has spent many hours' work on adapting the music and I hope we can work with Martyn again sometime, as he has been a fantastic person to work with. Thank you very much Martyn.

MENTER IAITH

Beth allwn ni wneud heb gymorth Menter Iaith. Mae Steffan Webb wedi bod yn gefn mawr i ni efo'r perfformiad yma ac yn mynychu ein cyfarfod misol. Mae Glenys wedi bod wrth law efo'i chymorth a fe hoffwn ni y "Rascals" ddiolch yn fawr iawn iddyn nhw. Hebddon nhw ni fydd y "Rascals" yn bod. Diolch yn fawr iawn.

What could we do without the support of "Menter Iaith" Steffan Webb a great support and has attended our committee meetings. Glenys has always been at hand with support and the "Rascals" would like to thank them both, without them the Rascals wouldn't be. Thank you very much.

Y RASCALS

Yn Cyflwyno



GREASE

GREASE YW'R GAIR / GREASE IS THE WORD

Hoffwn eich croesawu chi yma i Neuadd Dowlais a dwi'n gobeithio y byddwch chi yn mwynhau y perfformiad sydd o'ch blaen. Yr ydyn ni, yr "Rascals", wedi bod da'n gilydd am ddwy flynedd nawr ac yn barod wedi perfformio "Chwarae'n troi Chwerw" yn mis Chwefror 1997. Y mae'r "Rascals" wedi perfformio ar gyfer nifer o achlysuron fel lansiad Parti Ponty, Raligamps 97 a Noson i'r Teulu yng Nghwm Rhondda.

Heddiw rydyn ni am berfformio i chi addasiad Cymraeg o Grease. Cynhyrchiad sydd wedi bod yn waith caled i ni i gyd. Y mae'r plant wedi bod yn gweithio'n galed ar eu perfformiad ynghyd a'r pwyllgor sydd wedi bod yn gefn iddyn nhw. Dwi'n gobeithio mi fydd y perfformiad yma yn adlewyrchiad o'r holl waith caled sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn diwethaf.

I would like to welcome you here today and I hope you will enjoy the perfformance that is before you. The Rascals have been established now for two years and already have performed "Chwarae'n troi Chwerw" in Feburary 1997. The Rascals have performed in many special occasions such as the lauch for the Parti Ponty, Raligamps 97 and the Family Night in Rhondda.

Today we are performing a Welsh version of Grease. The production has been hard work for us all. The Rascals
have been working very hard as well as the Committee who have been behind them all the way. I hope this performance will reflect the amount of hard work that has been done over the past year.

Diolch yn fawr iawn i chi am ddod / Thank you very much for coming.

D. Williams

Dawn Williams
Cynhyrchydd / Producer

Y CYMERIADAU

DANNY ZUCKO
NICHOLAS SOUTH
Ysgol Gyfun Llanhari

Mae Nicholas wedi gwneud cyfraniad mawr i ddau grwp drama Menter Iaith yn y flwyddyn diwethaf. Mae wedi cynrychioli ni wrth wneud nifer fawr o ddarnau radio a theledu ar ol cael ei weld yn chwarae ei rol diwethaf o "Buttons" yng nghynhyrchiad di**wethaf y "Diawled Dawnus" o "Sindarela".**

Nicholas has made a very large contribution to the two Menter Iaith drama groups. He has represented us by doing a lot of radio and television work because he was "spotted" as he performed as "Buttons" in the "Diawled Dawnus"'s last production of Cinderella.

SANDY
HANNAH BLEWITT
Ysgol Gynradd Garth Olwg

Mae Hannah yn aelod eitha newydd i'r Rascals. Ond mae hi wedi bod yn gweithio'n galed ar ei rhan ac dw i'n dymuno'n dda i Hannah.

Hannah is a very recent member of the Rascals. She has worked very hard and I wish her all the best and I hope Hannah will continue to be a Rascal.

GREASE

Golygfa / Scene		
1	**Nol yn Ysgol**	Back in school
2	**Beth oedd enw fe?**	What was his name?
3	**Ty Frenchy**	Frechy's House
4	**Sandy Sandy. O ble rwyt ti Sandy!**	Oh Sandy Sandy!
5	**Y Garej**	The garage
6	**Burger Palace**	
7	**Mae lwc ni wedi newid**	Our luck has changed
	Diwedd Act 1 / End of Act 1	
8	**Y Ddawns**	The Dance
9	**Drive In**	
10	**Hedfan fel y gwynt**	Fly like the wind
11	**Thunder Road**	
12	**Y Diwedd**	The End
	Y Diwedd	

JUST LLOYD

Grease yw y Gair	Grease is the Word
Haf o Gariad	Summer Nights
Hound Dog	
Sandra Dee	
Ffyddlon i ti	Hoplessly Devoted to You
Grease Lightning	
Gwastraffu eich Bywyd	Beauty School Drop Out
Tears on my Pillow	
Hand Jive	
Blue Moon	
Wedi adael yn y Drive	Stranded at the drive in
Pethau Gwaeth i Wneud	There are worse things I could do
Sandar Dee - Reprise	
Ti yw'r un dwi moen	You're the one that I want
Fe awn da'n gilydd	We go together

Ewch i weld beth sydd ar gael yn siop Amy amser egwyl!

Go and see what's in Amy's shop break time!

Cofiwch cefnogi y "Rascals" wrth prynu tocyn raffle

Remember to support the "Rascals" by buying a raffle ticket

VINCE VONTANE / GUARDIAN ANGEL
CARWYN HEDD SION
Ysgol Gyfun Rhydfelen

Mae Carwyn yn hen Rascal. Wedi bod yna o'r dechrau ac yn awr wedi symud i fynu at grwp y Diawled Dawnus. Ond mae Carwyn wedi aros yn y Rascals i wneud Grease. Mae e ar hyn o bryd yn edrych ymalen at chwarae Olifer yng nghynhychiad nesaf y grwp sydd yn cael ei perfformio yn y Gaeaf felly "watch this space".

Carwyn is an old rascal. Has been a member of the group since the very beginning and had now moved on up the "Diawled Dawnus" grwp but has stayed with the rascals for this performance. At present Carwyn is looking forward to playing Oliver in the next performance, which will be performed in the Winter so "watch this space!"

CAST

Sophie Peacock	**Gweinyddes**	Waitress
Siwan Rhys	**Prifathrawes**	Headmistress
Ceri South	**Cha Cha**	
Sarah Jones	**Angel**	
Hayley Dickson	**Angel**	

tafod elái

GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI '98
Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdre

Nos Fawrth 25.11.97	Nos Fercher 26.11.97	Nos Iau 27.11.97	Nos Wener 28.11.97
Cwmni'r Urdd	Ysgol Gyfun Plasmawr	Cwmni'r Diawled Dawnus	Panto Cwmni Gwen
Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari	Cwmni Cwm Ni	Ysgol Gyfun Glan Tâf	Cwmni'r Dwrlyn Staff Llanhari
Cwmni'r Pentref	Cwmni Staff Plasmawr	Panto 6ed Llanhari	**Beirniadaeth a Chyflwyno Tlysau.**
ARLWYO:			
Cylch Meithrin Llanilltud Faerdref	**Merched y Wawr Y Garth**	**Cylch Meithrin Pentre'r Eglwys**	**Pwyllgor Cymraeg i Oedolion y Fenter Iaith**

Golygydd Tafod Elái:- Penri Williams
Trefnydd yr Ŵyl :- Colin Williams
Cyfeilydd yr Ŵyl:- Carey Williams
Beirniad :- Gillian Elisa

Ffotograffydd:- D J Davies
Swyddogion y Drws:- David Knight/ Gill Rees / Jim Morris / Ceryth Davies / Ken Sedgebeer
Cyfieithwyr :- Nerys Davies / Sian Edwards / Paul Fisher / Helen Prosser

gauchos
CAMBRENSIS
ELIDIR
ATSAIN
DERWEN
fflic
Teledu Opus Television

Beirniad - Gillian Elisa

24, 25, 26, 27 Tachwedd

13 eg

GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI 1998

Neuadd Dowlais
Llanilltud Faerdre

Rhaglen swyddogol - £1.00

tafod elái

Gair o Groeso.

tafod elái

Gwyrth yw ymddangosiad misol ein papur bro. O hyn ymlaen bydd hi'n 'chydig llai o wyrth gan fod Penri'r golygydd wedi ymddeol - wel, wedi ymddeol o'i waith bob dydd yn Aberddawan o leiaf.

Serch hynny, dylem i gyd geisio ysgafnhau baich pensiynwr! Beth am addunedu yn y flwyddyn newydd i anfon erthygl, llun a phwt o bennawd neu hysbyseb ato.

Sut medde' chi ?

☎	✉	e-bost	Y WÊ
01222 890040	Hendre 4 Pantbach Pentyrch. CF4 8TG	Pentyrch@celtic.co.uk	http://www.tafelai.u-net.com

Bu'r parodrwydd i gyd-dynnu wrth drefnu gŵyl ddrama'r **Tafod** mor gydweithredol ag erioed. Hefyd, bu parodrwydd y beirniad i ymgymryd ag wythnos mor llafurus ar fyr rybudd yn rhyddhad - diolch o galon i ti Gillian.

Eleni, yn ymddangos am y tro cyntaf mae cwmniau'r *Urdd, disgyblion Plasmawr ac athrawon Plasmawr*. Croeso cynnes iawn iddynt a hefyd braf yw croesawu yn ôl nifer o hen wynebau.

Y llynedd am y tro cyntaf darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Oherwydd y defnydd a wnaed ohono a'r sylwadau gwerthfawrogol, mae ar gael am y pedair noson eto eleni. Nid cyfieithu efallai yw'r gair iawn. Yn hytrach, ymgais i gynnal y sawl nad yw mor gadarn ei afael ar yr iaith ac i gydnabod bodolaeth y nifer cynyddol o ddysgwyr yn yr ardal gydag ambell sylw a chrynodeb hwnt ac yma, yw'r bwriad. Diolch i'r "cynhalwyr" meicroffon am fod mor barod eu gwasanaeth.

Y llynedd cafwyd gŵyl i'w chofio, 19 perfformiad dros 5 noson - gweler y tudalen gefn am y canlyniadau. Eleni, mae 'na 12 cynhyrchiad i'ch difyrru - 3 chwmni drama ieuenctid, 5 cwmni drama oedolion, 2 bantomeim ond dim un parti noson lawen yn anffodus.

Diolch i Bwyllgor Neuadd Dowlais. Diolch i'r cyfieithwyr, yr arlwywyr, y noddwyr, y stondinwyr, y cyfeilydd, y ffotograffydd, swyddogion y drws, y trysorydd a golygydd y *Tafod*. Diolch wrth gwrs i bob un o'r cwmniau ond yn olaf diolch i chi'r gynulleidfa.

Y Trefnydd.

gaucho cyf

DERWEN

fflic

ELIDIR

CAMBRENSIS

ALSAIN

Teledu Opus Television

GILLIAN ELISA

Pwy gredai fod Gillian Elisa wedi bod ar ein llwyfannau ac ar ein sgrîns teledu er chwarter canrif? Faint ohonoch chi welodd hi gyntaf yn sioe gerdd Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, *Dewin y Daran* ym 1974. Daethom i'w 'nabod yn dda fel *Sabrina* ar *Bobol y Cwm* a'r berthynas ryfeddol honno rhyngddi hi'r ferch ifanc afiaethus a'r chwedlonol Harriet Lewis / *Magi Post*. Ond dros y blynyddoedd ymddangosodd mewn dramau Cymraeg a Saesneg gan rannu llwyfan â mawrion y theatr megis gyda Pauline Collins a John Allderton (*Forever Green*), Ronnie Barker (*Magnificent Evans*), Philip Madoc (*Life & Times of Lloyd George*), Jane Asher a John Ogwen (*Hawkmoor*), Sian Phillips (*The Snowspider*). Hefyd, gydag Alun Richards yn y ffilm *Sticky Wickets*, Donald Houston yn '*Heyday In the Blood*, gyda Dafydd Howell yn *Coming Up Roses* a Harry Worth (*Jack and the Beanstalk*). Mae'n actores amryddawn eithriadol. Meddyliwch mewn difrif am ystod ei chymeriadu - *Angharad Dando* (Minafon), *Sarah Knowles* (Dinas), *Morrie Richards* (Bowen a'i Bartner), *Helen Atkins* (Mwy Na Phapur Newydd), *Sylvia* (Tair Chwaer), *Brenda* (Iechyd Da). I'r dysgwyr sy'n bresennol, Gillian yw *Carol* y nyrs yn *Talk About Welsh*. Gwyddom amdani hefyd wrth gwrs fel yr anfarwol *Mrs O T Thomas* a'r fam ddi-amynedd honno sy'n ceisio cadw trefn ar Ifan Gruffydd. Cofiwch wylio'r sioe Nadolig. Hi yw *Sian* pan yw'n cyd-gyflwyno gydag Ieuan Rhys (*Sion*). Mae ganddi hefyd ddawn gerddorol a'r gallu hwnnw i roddi mynegiant i amrywiol ganeuon. Gall rocian cystal â Suzie Quattro a gall wneud cyfiawnder â chân werin dyner. Efallai mai caneuon sioeau yw un o'i hoff gyfryngau ac mae wrthi ar hyn o bryd yn cynhyrchu CD newydd gyda Geraint Cynan.

Felly, gall y ferch fythol ifanc hon fod yn unrhyw un unrhyw le. Ond, rhinwedd fawr Gillian yw mai hi yw hi drwy'r cyfan. Er yr holl brofiadau egstotig a'r goleuadau llachar, rydym ni Gymry yn teimlo fod Gillian Elisa'n perthyn i ni. Merch o Lambed yw hi o hyd. Does ond gobeithio y bydd cwmnïau Gŵyl Ddrama Tafod Elái yn dal i goleddu'r un farn ar ôl iddi fwrw'i ffon fesur drostynt yr wythnos hon.

7.00 Nos Fawrth

Cwmni Cynradd yr Urdd
yn cyflwyno

MERCHED BECA

Cast

Berwyn Pearce
Emma Jay
Cari Bailyes
Lucy Watkins
Joni Castle
Elen Barrar
Beca Phillips
Tamara Harding
Nia Sheppard

Gwawr Loader
Rebecca Reeves
Joanna Merry
Sara Monks
Jamie Abbott
Rebecca Roberts
Timothy Ware
Mared Griffiths
Bridie Morris

Nia Brooks
Cerys Davies
Emma Williams
James Bolderson
Owain Williams
Jenna Day
Claire Newbery
Kelly Thomas
Sara Garland

Kate Griffiths
Faye Williams
Kate Monks
Ellena Deeley
Owain Thomas
Sion Phillips
Leah Jones
Amy Jones
Ffion Hawkins

Tîm Cyfarwyddo

Leanne Marsh
Beca Caffery

Catrin Dafydd
Rhodri Francis

Siwan Francis

Y Cwmni

Sefydlwyd Cwmni Drama'r Urdd ym Mhontypridd yn Ionawr 1997 ar gyfer ysgolion cynradd yr ardal. Pwrpas y fenter yma oedd rhoi cyfle i blant yr ardal ymarfer a mwynhau drama trwy gyfrwng y Gymraeg. Arweinydd y cwmni ers y dechrau yw Leanne Marsh sef cyn-enillydd Tlws Emyr Edwards am actores orau'r wyl. Mae'r cwmni wedi mynd o nerth i nerth ac mae 35 o aelodau yn mynychu'r cwmni'n wythnosol. Dyma'r tro cyntaf i'r cwmni berfformio' n gyhoeddus. Catrin Dafydd, myfyrwraig chweched dosbarth Ysgol Rhydfelen a enillodd yr un tlws â Leanne yn 1997, sydd wedi ysgrifennu'r sgript.

Y Cynhyrchiad

Drama yw hon sy'n sôn am gariad rhwng merch Uchelwr a Twm Carnabwth, un o'r werin bobl a frwydrodd dros 'Ferched Beca'. Drama sy'n cynnwys cyffro'r brwydro ac sy'n dangos y gwir dlodi a oedd yng nghefn gwlad Cymru yn ystod y 19eg ganrif.

8.00 Nos Fawrth

Cwmni
Ysgol Gyfun Llanhari
yn cyflwyno

SHIRLEY

Addasiad Manon Eames o *Shirley Valentine* gan Willy Russell

Cast

Nadine Beaton
Hayley Charles
Emily Evans
Rhys Jones
Sian Prior
Marged Thomas

Ryan Chappell
Jenny Davies
Emily James
Rhiannon Lewis
Leah Rees
Elin Williams

Y Cwmni

Dyma ddrama osod disgyblion blwyddyn 10 sydd yn astudio drama ar gyfer T.G.A.U.

Y Cynhyrchiad

Cyflwynir golygfeydd allan o addasiad Cymraeg y ddrama gyfoes boblogaidd Shirley Valentine.

ELIDIR

Teledu Opus Television

fflic

ATSAIN

DIOLCH I'R NODDWYR

9.00 Nos Fawrth

Cwmni'r Pentref
yn cyflwyno

SWYN Y SÊR

gan Elin Morse

Cast (yn ôl eu hymddangosiad ar y llwyfan)

Mr Jones	(gŵr Meri)	-	Allan Pickard
Mr Mordecai	(gŵr tawel Blodwen)	-	Howard Morse
Meri		-	Elin Morse
Blodwen	(chwaer Meri)	-	Mima Morse
Y Fet		-	Tomos Morse

Y Cwmni

Teuluol. Blas y pridd yn drwm arno. Beiddgar a mentrus, bob cynhyrchiad yn torri cwys newydd yn hanes y theatr yng Ngwlad y Gân.

Y Cynhyrchiad

Pa helynt ddisgynnodd wrth draed y ddwy chwaer, Blodwen a Meri, ar eu fferm anghysbell ar ben Mynydd Bach? Beth yw'r cysylltiad rhwng yr hwch feichiog a rhagolygon y Sêr? Pa fewnbwn, mewn gwirionedd sydd gan y ddau ŵr - Mr. Jones a Mr. Mordecai? Cewch wybod yr atebion i gyd heno.

g a u c h o cyf

Teledu Opus Television

7.00 Nos Fercher

Ysgol Gyfun Plasmawr
yn cyflwyno detholiad allan o

DAN Y WENALLT

Cyfieithiad T James Jones

Cast

Llais / Mrs Ogmore-Pritchard	-	Caryl Pollard
Mam / Mrs Dai Bara Gwyn	-	Alys Colayera
Mrs Dai Bara Brown / Mrs Organ Morgan	-	Elenid Hatcher
Llais / Gwraig	-	Beca Jones
Llais	-	Fflur Dafydd
Llais / Mr Pritchard / Eben Watkins	-	Geraint Passmore
Llais	-	Alex Clatworthy
Mr Ogmore / Jacyraca	-	Chris Thomas
Llais / Mrs Puw	-	Mali Llywelyn
Mog Edwards / Mr Puw	-	Robert Carling
Miss Price / Gwraig	-	Medi Warburton
Gwraig / Lili	-	Catrin Middleton
Gwraig / Besi Benfras	-	Catherine McCallum
Llais / Gwraig / Mrs Beynon	-	Sarah Liss
Llais / Waldo / Mr Beynon	-	Carl Riley
Y Parch. Eli Jenkins	-	Sion Lewis
Bachgen / Dai Bara / Mr Organ Morgan	-	Aled Williams
Cyfarwyddwr	-	G Wyn Jones

Y Cwmni

Mae'r ysgol newydd agor ym mis Medi '98, ac felly dyma'r tro cynta i'r ysgol gystadlu yn yr wyl. Yn wir dyma'r tro cynta i'r ysgol gystadlu yn gyhoeddus yn ei hanes !

Y Cynhyrchiad

Detholiad o "Dan y Wenallt" cyf. T James Jones o "Under Milk Wood" gan Dylan Thomas. Drama sy'n dangos bywyd undonnog trigolion pentre' Llaregyb, a'r cymysgwch o gymeriadau lliwgar a geir ymhob pentre' ledled Cymru.

8.00 Nos Fercher

Cwmni Cwm Ni
yn cyflwyno

"Y TRAP"

Agatha Christie
(Cyfieithiad Gareth Williams)

Cast

Sandra	-	Ann Lewis
Jennifer	-	Angharad Thomas
David	-	Ben Jones
Alec	-	Gareth Williams

Cynhyrchydd	-	Angharad Thomas
Props a Set	-	Fred Brooks
Goleuadau	-	Peter Davies

Y Cwmni

Cwmni Drama Cymraeg ardal Caerffili yw *Cwmni Cwm Ni.* Wedi'i ffurfio ers 1991, mae'r criw yn cwrdd bob nos Fercher yng Nghanolfan y Celfyddydau, Bedwas.

Dyma'r pedwerydd tro i'r Cwmni ymddangos yn yr Ŵyl hon. Am y tro cyntaf, yn ein hanes, rydym yn cefnu ar gomedi!!!! ?

Y Cynhyrchiad

Un o ddramau Agatha Christie yw "Y TRAP" wedi ei seilio ar ddigwyddiadau ysgeler mewn fflat ffasiynol yn Llundain yn 20au'r ganrif.

Daw cariadon at ei gilydd ond pwy drefnodd yr oed a pham? Mewn fflat wag. Gwag? Ond beth sydd yn y gist o Ddamascus? Beth, hefyd, am y gyllell o'r Dwyrain dirgel. Datgelir yr holl gynllwyn o dipyn i beth .....

Gwyrth bob mis TAFOD ELÁI
£2.50 y flwyddyn

9.00 Nos Fercher

Cwmni Drama
Staff Pantsmawr
yn cyflwyno

GRÎS - Y PHARSMAWR

Cast

OES

Y Cwmni

Ifanc a beiddgar

Y Cynhyrchiad

Addasiad o'r ffilm "Grease" yw'r cynhyrchiad cyfoes hwn. Teimlwn fel staff fod y ffilm, nid yn unig yn glasur ond ei bod hefyd yn cynnig modd i greu addasiad llwyfan heriol ac arbrofol. Gobeithiwn, yn sgîl ein perfformiadau i gyfleu yr ymdeimlad o gyffro, miri a gobaith sydd yn uno pob athro cyffredin yn yr ysgol.

Os credwch chi hynny, fe gredwch chi unrhywbeth.

Faint yw gwerth y Tafod i chi?

7.00 Nos Iau

Cwmni'r Diawled Dawnus

yn cyflwyno

AMC

Cast

Y Band

Amy Williams
Emma Thomas
Catrin (Helena James)

Y Cymeriadau

Rheolwr — Tom Beard
Chwaer fach Emma — Sara Thomas
Nic — Nicholas South
Beti — Bethan Hopkin

Cynhyrchydd — Dawn Williams
Set — Andrew Minton

Y Cwmni

Grŵp drama lleol yw *Diawled Dawnus* a sefydlwyd ym 1997 gan Dawn Williams. Bu'r grŵp yn cystadlu yn yr Ŵyl y llynedd gyda'r panto *Sindarela* ac wedyn aethpwyd â'r perfformiad ar daith o gwmpas ysgolion cynradd lleol.

Perfformiodd *AMC* ym Mharc Ynys Angharad yn ystod Parti Ponty yr Haf diwethaf ac rydym yma i berfformio i chi eto eleni :-

Y Cynhyrchiad

Mae tair merch leol wedi sefydlu grŵp ac mae eu rheolwr newydd yn addo'r byd iddynt. Rydym yn gweld y band yn ymarfer a'r problemau maent yn eu hwynebu wrth ddechrau ar lwybr llithrig y byd cystadleuol cerddorol.

9.00 Nos Iau

Ysgol Gyfun Llanhari

yn cyflwyno

PANTO'R CHWECHED

Cast

Collin : Huw Grundy
Craig : Daniel Kemlo
Clem : Rhodri Lovett
Patricia Pryfyn: Angharad Bizby
Carys : Helen Jarman
Derwen : Alexis Barnad

Pryfed : Sally Phillips, Johanna Truelove, Rhian Morris, Kirsty McAndrew, Nia Lloyd-Jones

Dawnswyr : Christopher Reffell, Jonathan Owens, Daniel Lent, James Williams, Richard Hawkes, Huw Russell, Justin Jones, Rhys Edwards

Sgript gan : Catrin Heledd
Cyfarwyddwr : Rhian Mahoney
Cerddoriaeth : Mr A Jones & Mr Geraint Cynan

Dame : Rhodri Bwye
Rhiannon : Ria Copley
Percy : Aled Davies
Big Daddy : James Bellringer
Clodwyn : Ryan Chappell

Blodau : Catrin Heledd, Kelly Williams, Marged Hâf, Natalie Davies, Carys Lovering, Bethan Winn, Rhian Davies, Catrin Alexander, Sally Holder, Rhiannon Morris, Natalie Skyrme, Rhian Mahoney

Y Cwmni

Dyma ni unwaith eto, chweched dosbarth gwallgof Ysgol Llanhari yn perfformio pantomeim gwreiddiol, danlli, di-synnwyr! Edrychwch yn ofalus, mae rhai ohonom heb berfformio erioed o'r blaen, ac yn siwr o beidio gwneud eto!

Y Cynhyrchiad

Mae bywyd yn berffaith i lawr yn yr ardd i bawb ond Rhiannon Rhosyn sy'n chwilio am gwmni. Ond daw'r pryfed cas i darfu ar yr heddwch. Beth ddaw o'r ardd? Beth ddaw o Rhiannon Rhosyn? Rhaid gwylio a gweddïo am y gorau!

7.00 Nos Wener

Cwmni Gwen
yn cyflwyno

"PANTO YN Y PANTRI"

Cast

Traethydd 1 - Ffion Fforc - Mared Swain
Traethydd 2 - Catrin Cyllell - Catrin Dafydd

Bodrewllyd Bin	-	Lowri Jones	Ffyn Guy	-	Paul Morgan
Ria Bacteria	-	Bethan Williams	Stinci Pw	-	Nerys Pollard
Lleucu Llwy	-	Marged Hâf	Llinos Llwy	-	Caroline Howells
Sebastian Lesif	-	Alun Reynolds	Bet y Tebot	-	Gemma James
Darren y Dishwasher	-	Ifan Glyn	Anti Fferi Licwid	-	Ryan Chapel
Tegwen y Tap	-	Esyllt Dafydd	Tomos y Tap	-	Aneirin Karadog
Bod-Ddilynwyr	-	Osian Jones / Huw Caffery / Tallis Hunt			
Cwpannau	-	Bethan Gaunt / Lowri Mair Jones / Angharad Morgan / Angharad Rogers / Jenny Johnson / Rhiannon Lewis			

Cyfarwyddwr - Beca Caffery
Siwan Francis

Y Cwmni

Dechreuwyd *Cwmni Gwen* ym 1995, er cof am Gwen Heulyn, merch ifanc o ardal Pontypridd. Ers hynny, mae'r cwmni wedi perfformio tair drama gerdd yn Theatr y Miwni a'r diweddaraf ohonynt oedd "*Ffatri Breuddwydion*" ym mis Medi eleni. Mae'r cwmni wedi cystadlu ddwy waith eisoes yng Ngŵyl Tafod Elái ond dyma'r tro cyntaf i'r cwmni geisio â phantomeim. Mae pob croeso i aelodau newydd o flwyddyn 10 i 12 ymuno â ni. Rydym yn ymarfer ar nos Fercher, 7.00 - 9.00 o'r gloch yn Ysgol Evan James.

Y Cynhyrchiad

Pantomeim gwreddiol yw hwn wedi'i leoli yng nghegin stiwdios *HENO*. Ymunwch â **Chatrin Cyllell** a **Ffion Fforc** a'u hymdrechion i amddiffyn y gegin rhag rheolaeth **Bodrewllyd Bin**. Stori serch ydyw yn cylchdroi o amgylch y tapiau sydd yn cael trafferth mawr i weld ei gilydd.

8.00 Nos Wener

Cwmni'r Dwrlyn
yn cyflwyno

"D'EWYTH JAC"

gan Dafydd Murphy

Cast

NERYS.....	*Nith Mrs Nel Harris-Jones*	Sheila Dafis
CATRIN	*Ffrind Nerys*	Nia Williams
ROBIN	*Ffrind arall*	Colin Williams
MRS HARRIS-JONES ...	*Gwraig weddw*	Eirlys Davies
LYDIA LEWIS	*Cyfaill a chymydog Mrs Harris-Jones*	Margaret Roberts
CARLO CARABINI	*Ysbrydegydd o fri*	Wyn Rees
CI JAC.....		Jac Russell
COFWEINYDD		Judith Evans
CYNHYRCHYDD		Ifan Roberts

Y Cwmni

Rhai aelodau, llai call na'r lleill, o gymdeithas Gymraeg Creigiau a Phentyrch sef, Clwb y Dwrlyn. Tro'r lleill fydd hi'r flwyddyn nesaf!

Y Cynhyrchiad

Ychydig ar ôl iddi golli "D'Ewyth Jac", mae cymdoges wedi perswadio Anti Nel i gynnal *séance* i ddatrys penbleth ynglyn â *shares* ei diweddar ŵr. A yw hyn yn symudiad doeth? Nid yw Nerys yn credu hynny ac nid yw hi 'chwaith yn sicr o fwriadau'r ymwelwyr od sy'n mynychu'r sesiwn. Cydiwch yn nwylo eich gilydd - rhag ofn!

Pryd o'r Tafod
£2.50 y Flwyddyn

CAMBRENSIS

8.30 Nos Wener

Cwmni staff Llanhari
yn cyflwyno

DIGALONDID ÔL - AROLWG

(A sut i'w orchfygu)

Cast

Athrawon hen a newydd.

Y Cwmni

Gadawodd llu o dalentau amlycaf y cwmni ond yn ôl y gwybodusion mae nifer o'r actorion ifanc di-brofiad yn llawn abl i lenwi eu hesgidiau.

Y Cynhyrchiad

Cyflwyniad dramatig yw hwn sydd yn archwilio canlyniadau arolwg llwyddiannus gan SPAEM. Y mae'r cynhyrchiad beiddgar hwn yn mynd i'r afael â'r *euphoria* hwnnw sydd yn dilyn llwyddiant o'r fath. Ond hefyd dadansoddir yn gignoeth y digalondid, y duwch dudew hwnnw a ddaw yn sgîl iselder ysbryd gan nad yw'r HMI's yno i ysbrydoli'r athrawon mwyach. Y mae'r prifathro druan yn cael llond bol. Mae'n rhoi'r gorau iddi a gesyd ei ffidil yn nhrawstiau ei dyddyn yn y Tyllgoed. A oes gobaith i'r athrawon a erys yn Llanhari? Mewn gair, oes. Mewn dau air, ARALL GYFEIRIO - dyma'u hachubiaeth.

Lluniaeth ysgafn ar gael

Blwyddyn	Beirniad	Tlws Ysgol/ Ieuenctid (Drama orau)	Tlws Ifan Wyn (Drama oedolion orau)	Cwpan T Jim Jones (Cwmni gorau'r Wyl)	Tlws Emyr Edwards (Actor(es) yr Wyl)	Tlws Panto (Agored)	Tlws N'on Lawen (Agored)	Tlws HGregory (Cyntradd)
1986	Dyfan Roberts		Y Fawch Goch					
1987	Huw Ceredig	Rhydfelen	Clwb y Bont	Cwmni Un Nos				
1988	John Hefin	Cwm Rhymni	Clwb y Bont	Cwm Rhymni				
1989	T James Jones	Cwm Rhymni	Clwb y Bont	Cwm Rhymni				
1990	Gwenlyn Parri	Llanhari	Y Fawch Goch	Llanhari				
1991	Emyr Edwards	Cwm Rhymni	Clwb y Bont	Cwm Rhymni	Beth Angell			
1992	Lis Miles	Rhydfelen	Cwmni '93	Llanhari	Leanne Hardman	Llanhari	Llantrisant	
1993	Iola Gregory	Y Cymer	Y Dwrlyn	Llanhari	Bethan Ellis Owen	Llanhari	Y Dwrlyn	
1994	Llion Williams	Y Cymer	Llantrisant	Llanhari	Owain Williams	Llanhari	Y Dwrlyn	
1995	Hoddyr Gregory	Mentor Taf Elai	Dwrlyn B	Mentor Taf Elai	Anghared Devonald	Llanhari	Y Dwrlyn	
1996	Caryl Parry Jones	Cwmni Gwen	Athraw. Llanhari	Cwmni Gwen A	Garvin Preece	Llanhari	Y Dwrlyn	
1997	Cliff Jones	Rhydfelen II	Theatr Crwys	Rhydfelen II	Catrin Dafydd	Llanhari	Cwmni Gwen	Traed y Ddraig
1998	Gillian Elisa	?	?	?	?	?	?	?

tafod elái

GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI '99
Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdre

Nos Fercher 24.11.99		Nos Iau 25.11.99	Nos Wener 26.11.99
Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari		Cwmni Ysgol Gyfun Glantaf A	Panto Llanhari
		Cwmni Ysgol Gyfun Glantaf B	
Cwmni Ysgol Gyfun Rhydfelen		Cwmni Athrawon Plasmawr	Cwmni'r Pentref
Cwmni Cwm Ni		Cwmni Crwys A	Beirniadaeth a Chyflwyno Tlysau.
		Cwmni Crwys B	
ARLWYO	Cylch Meithrin Llanilltud Faerdref	Cylch Meithrin Pentre'r Eglwys	Pwyllgor Cymraeg i Oedolion y Fenter Iaith

Golygydd Tafod Eláí:- Penri Williams
Trefnydd yr Ŵyl :- Colin Williams
Beirniad :- John Pierce Jones
Swyddogion y Drws:- Gill Rees / Jim Morris / Cerith Davies / Ken Sedgebeer
Cyfieithwyr :- Nerys Davies / Paul Fisher / Helen Prosser
Llyfrwerthwyr :- Siop y Bont, Siop Canolfan Gymraeg Merthyr

Trysoryddion :- David Knight / Elgan Lloyd
Ffotograffydd:- D J Davies
Cyfeilyddion yr Ŵyl:- Carey Williams / Geraint Rees

Opus
fflic
TELESGÔP
BRACAN

tafod elái

Gair o Groeso.

tafod elái

Mae ganddom oll le i ddiolch i'r Tafod am esgus i gyfarfod unwaith eto yn Neuadd Dowlais ym mis Tachwedd. Er fod 'Dolig ar y gorwel, yr Ŵyl Gerdd Dant hefyd yr un adeg ac arholiadau ymarferol drama'n faich ychwanegol ar 'sgwyddau ein hathrawon, serch hyn i gyd, mae'r Ŵyl Ddrama wedi dal ei thir. Mor braf fydd edrych yn ôl wedi'r wythnos wyllt a darllen yr hanes ac astudio lluniau D.J. yn rhifyn Nadolig y Tafod. Ga i'ch atgoffa pa mor hawdd yw hi'r dyddiau yma i anfon pwt at Penri'r golygydd?

Mae 'na ddewis o bedair ffordd :-

☎	✉	e-bost	Y WÊ
01222 890040	Hendre 4 Pantbach Pentyrch. CF4 8TG	Pentyrch@celtic.co.uk	http://www.tafelai.u-net.com

Mor bwysig yw cael enw da, enw MAWR, yn feirniad. Wel mae John Bŵts yn enw da ac mae John Pierce Jones yn enw MAWR. Methwyd â sicrhau ei wasaneth yn y gorffennol oherwydd y galwadau sydd arno. Eleni, a diolch mawr i'w wraig, Inge, mae 'na feirniad MAWR yn yr Ŵyl.

Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn mynd o nerth i nerth yn yr ardal. Oherwydd y defnydd a wnaed ohono a'r sylwadau gwerthfawrogol, mae ar gael am y tair noson eto eleni a'r "cynhalwyr" meicroffon yn barod eu gwasanaeth.

Y llynedd cafwyd gŵyl i'w chofio, 12 perfformiad dros 4 noson - gweler tudalen gefn y rhaglen am y canlyniadau. Eleni, mae 'na 10 cynhyrchiad i'ch difyrru - 4 cwmni drama ieuenctid, 1 pantomeim, 5 cwmni drama oedolion ond dim un parti noson lawen na chwmni cynradd, yn anffodus.

Eleni, bydd gwobr ychwanegol i'r cwmniau llwyddiannus. Yn dilyn cais am gyllid o gronfa dathliadau milflwyddiant y Sir, mae taith wedi'i threfnu ar gyfer 3 chwmni - i Gwm Parc, Aberdâr ac i Bontypridd. Cynigir comisiwn hefyd i un cwmni gynnal gweithdy a pherfformiad yn y Ffair Addysg a gynhelir ar gampws Prifysgol Morgannwg ym mis Gorffennaf.

Diolch i Bwyllgor Neuadd Dowlais. Diolch i'r beirniad, i'r cyfieithwyr, yr arlwywyr, y noddwyr, y stondinwyr, y cyfeilyddion, y ffotograffydd, swyddogion y drws, y trysoryddion a golygydd y *Tafod*. Diolch wrth gwrs i bob un o'r cwmniau ond yn olaf diolch i chi'r gynulleidfa.

Y Trefnydd.

Copus BRACAN fflic TELESGÔP

BEIRNIAD OLA'R MILENIWM

(Wrth ddrws y neuadd)

Carol - Dan Lovall 'te Mr Picton. Dwi yn iawn, ond ydw?

Mr Picton - Mr Picton, Bryncoch F.C. Ia, nosweth dda gyfeillion. Ydi, mae'n braf cael bod yma.

Carol - Ych chi wedi bod yn yr ardal o'r blaen Mr Picton?

Mr Picton - Naddo rioed wedi mentro del..... Wel, wir Dduw - fo ydio 'nte?

Carol - Fe 'di pwy Mr Picton?

Mr Picton - Y penci, ar 'fenaid i. Neiff hwnna rwbath am sofran.

Carol - Cyfeirio'r ych chi at ein beirniad ni eleni?

Mr Picton - Beirniad wir Dduw. Di hwnna'n gwybod diawl o ddim am actio. Asiffeta! y thesbian uffarn.

Carol - Wel mae Penri'r gŵr yn meddwl ein bod ni di cael beirniad o fri y tro yma - actor a hanner medde fe.

Mr Picton - Yn Bryncoch 'cw, fasa fom'n câl beirniadu cystadleuath garthu. Y penci! Mi âth dros môr i Merica na a châl gafal ar wraig. Peth bach dinboeth digon - handi, wedi dysgu'r heniaith mewn dim o dro meddan nhw. Y sglyfath budr! A rwan ma'n gneud y *circuit* gwyliau drama'n honni beirniadu.

Carol - Wel roedden ni wedi trio cael actor go iawn. Doedd John Ogwen na JO ddim ar gael, wyddoch chi?

Mr Picton - Hen dro, very sad, trist iawn. Duw a'ch helpo chi yma yn y Sowth uda i.

Carol - Dwi'n siwr na chawn ni mo'n siomi.

Mr Picton - Ych gŵr ... Penri ddudsoch chi, y penbandit sy'n gyfrifol am ych papur bro chi yma. Hwnna fancw? Neno'r tad, drychwch arno fo - o flaen pawb. Be mae o'n 'neud? -
Penri, paid a chwara hefo hwnna. Esgusodwch fi ..... Carol ? ... ia? Mae'n rhaid i mi fynd i sortio hyn allan i chi gael beirniad go iawn ar y tipyn gŵyl yma ... Asiffeta ... John Bŵts, y sglyfath budr ... y penci uffarn ... Cer o'r gadar 'na a gâd i rywun sy 'di arfar deud be di be ddod iddi.

Dowch hogia bach..... mlaen â'r sioe. Cmon bois, allwch chi neud yn well na hynna. Cmon-actio coch, ar f'enaid i!

7.00 Nos Fercher



Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari
yn cyflwyno

STORI'R SŴ

Cyfieithiad o 'Zoo Story' gan Edward Albee

Cast

Jerry	-	Alexis Barnard
Paula	-	Catrin Heledd

Y Cynhyrchiad

Yma, gwelwn ddau gymeriad hollol wahanol yn ceisio cyfathrebu â'i gilydd. Mae Jerry yn berson gwan sydd wedi ei ddinistrio gan ei ymdrech i wireddu'r freuddwyd Americanaidd a Paula, sy'n byw o fewn ffiniau caeth ei bywyd braf. Wrth iddynt ddadau dros y fainc syml yn y parc mae diwedd trasig yn dod i'r ddau gymeriad wrth i'w bywydau gael eu trawsnewid o ganlyniad i un weithred fach ac un ymweliad â sŵ.

8.00 Nos Fercher

Cwmni Ysgol Gyfun Rhydfelen
yn cyflwyno

BYG Y MILENIWM

gan Dafydd Hughes

Sain Ffagan 11.55pm, 31.12.99

- Fydd Cymru yn newid?
- Beth fydd tynged ein cenedl?
- Pam fod Rod mor flin?

Atebion a chwestiynau di-ri.

9.00 Nos Fercher

Cwmni Cwm Ni
yn cyflwyno

CYTHREL Y CANU

gan Islwyn Williams

Cast

Yr Adroddwraig	-	Rita Jones
Y Llais	-	Denzil John
Yr Actorion	-	Nia Parsons
		Gareth Williams
		Ann Lewis
		Ben Jones
		Llinos Lloyd
		Helen Hollyman
Props a Set	-	Fred Brooks
Golau a Sain	-	Peter Davies

Y Cynhyrchiad

Beth yn union yw'r "Cythrel y Canu" bondigrybwyll? Ym mha ffurf y'i gwelir? Ydy e'n perthyn i'r Gymru gyfoes ynteu cysgod o Gwm Tawe pumdegau Islwyn Williams yw e? Wyth sgets a 'sgrifennwyd ar gyfer y Radio yn ystod y pumdegau a geir yma. Dyma, felly, wyth sefyllfa gwbl wahanol. Gwahanol .....?

Y Cwmni

Syfydlwyd y Cwmni ym Medwas yn sgîl Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni 1990. Mae'r Cwmni wedi cwrdd (bron) bob nos Fercher ers hynny a hwn yw ein pumed ymddangosiad yn.yr Ŵyl Ddrama.

Copus. BRACAN fflic TELESGÔP

7.00 Nos Iau

Cwmni Ysgol Gyfun Glantaf A

yn cyflwyno

WRTH AROS GODOT

gan Samuel Beckett (Cyfieithiad Saunders Lewis)

Cast

Estragon	-	Elinor Williams
Vladimir	-	Holly Rivers

Disgyblion yn astudio drama yn y chweched dosbarth

DIM EGWYL

7.20 Nos Iau

Cwmni Ysgol Gyfun Glantaf B

yn cyflwyno

